47. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n archwilio sgiliau Cymru, gan ystyried sut mae pobl wedi mynd ati mewn mannau eraill a pha ddata sydd ar gael ar gyfer Cymru. Ond fe all fod yn anodd nodi swyddi a sgiliau gwyrdd oherwydd prinder data. Nid oes gennym samplau digon mawr o'r ffynonellau data i allu gwneud y dadansoddiad manwl y gall Lloegr ei wneud. Er y gall sectorau unigol gynhyrchu eu data eu hunain, e.e. rhagolygon o'r hyn sydd ei angen yn y dyfodol, mae'n anodd iawn gosod hynny yng nghyd-destun archwiliad sgiliau trosfwaol oherwydd gorgyffwrdd, a methodolegau, diffiniadau ac ansawdd/cywirdeb gwahanol, ymhlith ffactorau eraill. Mae Arolwg o Sgiliau Gwyrdd wrthi'n cael ei gynnal, sef un o nifer o Adolygiadau Carlam ategol fydd yn parhau i'n helpu i ddeall anghenion diwydiant ac addysg bellach, nawr ac yn y dyfodol. Gwnaeth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol arwain ford gron ar Sgiliau Gwyrdd ym mis Ionawr ac mae rhagor o ddigwyddiadau sy'n targedu rhanddeiliaid yn cael eu datblygu fydd yn helpu gweinidogion i lunio argymhellion ar gyfer darparu sgiliau yn y dyfodol.

48. Argymhelliaid 13: Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod cyngor gyrfaedd yn cael ei integreiddio'n well ar hyd taith addysg disgybl i sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd yng Nghymru a geir yn sgil trosglwyddo i economi wyrddach.

49. Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

50. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod dysgu am yrfaedd a chyngor ar yrfaedd yn rhan o daith addysg dysgwr, gan gynnwys magu ymwybyddiaeth o'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc yn y byd gwaith. Cefnogir hyn gan raglenni cymorth Gyrfa Cymru i ysgolion, a gofynion Cwricwlwm Cymru o ran Gyrfaedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith. Bydd y cyfan wedi'i gyflwyno ym mis Medi 2026.

51. Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod y bydd yr economi werdd yn cael effaith ar swyddi yn y dyfodol a'i fod wedi rhoi blaenoriaeth i'r maes hwn yn ei waith. Ym mhob ysgol uwchradd, ysgol arbennig ac Uned Cyfeirio Disgyblion, mae Gyrfa Cymru yn cynnig Partneriaeth Busnes Addysg sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ac athrawon gwrdd a thrafod â chyflogwyr. Nod y trafod hwn yw hysbysu, ysbrydoli ac ysgogi pobl ifanc am eu gyrfa yn y dyfodol ac yn cynnwys cyfle i drafod ag ystod eang o gyflogwyr yn yr economi werdd ledled Cymru. Ers mis Medi 2024, mae Gyrfa Cymru yn cynnig hefyd arweiniad a hyfforddiant ym maes gyrfaedd i bob dysgwr blwyddyn 11 cyn iddynt adael addysg orfodol, gan sicrhau bod pobl ifanc yn cael cymorth diduedd wedi'i deilwra i'w hanghenion.

52. Mae gwefannau Gyrfa Cymru a Chymru'n Gweithio yn llawn gwybodaeth sy'n berthnasol i bobl ifanc ac oedolion i'w helpu â'u gyrfaedd, gan gynnwys gwybodaeth, cyfleoedd a chymorth yn y maes Sero Net ac Eich Gyrfa.

53. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnig help i ysgolion i adeiladu eu cymdeithas o gynfyfyrwyr a thrwy gontract Model Rôl Syniadau Mawr Cymru, mae'n dal i gynnal 1,000 o weithdai i hysbysu ac ysgogi dysgwyr i ystyried hunangyflogaeth a dechrau busnes. Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu hefyd ystod o adnoddau sy'n rhoi gwir ymdeimlad i athrawon ac ymarferwyr o sut olwg fydd ar y farchnad swyddi werdd yn y dyfodol, er mwyn iddyn nhw allu trosglwyddo'r weledigaeth honno i'r bobl ifanc a'u hannog i'r llwybrau hyfforddi cywir.

54. Yn ogystal â'r gefnogaeth y mae Gyrfa Cymru yn ei darparu, mae ysgolion yn chwarae rhan allweddol o ran codi ymwybyddiaeth o'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc.

55. Mae Cwricwlwm Cymru, a ddechreuodd yn 2022, yn sicrhau bod addysg gyrfaedd a chynaliadwyedd wedi'u hymgorffori ar draws ystod o ddysgu, ac

rydym wedi gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i'w helpu i ddatblygu'r hyn a gynigir i gefnogi'r Cwricwlwm. Mae Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith (CWRE) yn thema drawsbynciol yn y cwricwlwm hwn, ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed. Mae hyn yn golygu, am y tro cyntaf, ein bod yn disgwyl i ddysgu am yrfaedd gael ei integreiddio i ddysgu o'r amser cynharaf i blant yn yr ysgol. Am fod addysg gyrfaoedd wedi'i hintegreiddio â mathau eraill o ddysgu, mae'n rhoi cyfle pwysig i ysgolion sicrhau bod addysg gyrfaoedd yn gwneud cysylltiadau pwysig â materion fel cynaliadwyedd.

56. Yn achos cynaliadwyedd a'r economi werdd, un o bedwar diben y Cwricwlwm yw cefnogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus sy'n dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned. Gan fod ysgolion yn cynllunio'r holl ddysgu, gan gynnwys addysg gyrfaoedd, byddem yn disgwyl iddynt gynllunio sut mae hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r priodoleddau hyn.

57. Gall addysg gyrfaoedd chwarae rhan bwysig wrth baratoi dysgwyr ar gyfer yr economi werdd trwy ddangos ystod eang o gyfleoedd iddynt am yrfa, gan gynnwys mewn sectorau newydd. Byddem yn disgwyl i addysg yrfaedd sy'n briodol i oedran a datblygiad gael ei hymgorffori ar draws gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad, yn unol â chanllawiau statudol y CWRE.

58. Er enghraifft, mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn ceisio meithrin dealltwriaeth dysgwyr o entrepreneuriaeth foesegol, moeseg busnes, a phrosesau ac arferion diwydiannol gwyrdd cynaliadwy. Mae hyn yn eu paratoi ar gyfer y byd gwaith ac yn meithrin eu hymwybyddiaeth am feysydd economaidd gwyrdd sy'n dod i'r amlwg. Mae cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd, a sut y gall unigolion, cymunedau a gwledydd ymateb i'r heriau hyn, hefyd yn cael eu cynnwys fel rhan orfodol o ddysgu yn y Maes Dyniaethau. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn annog dysgwyr i ddatblygu gwytnwch a'r gallu i addasu, ac i wneud penderfyniadau gwybodus a ystyriol, sy'n hanfodol mewn tirwedd economaidd sy'n newid. Mae'r Meysydd Dysgu hyn yn rhoi cyd-destun i ymwneud ag addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, gan helpu dysgwyr i weld y berthynas rhwng dysgu a'r byd gwaith, gan gynnwys yn yr economi werdd.

59. Mae ysgolion hefyd yn gallu cael at ystod o adnoddau gan Gyrfa Cymru i'w helpu i gynllunio addysg gyrfaoedd effeithiol.

60. Canfu ein hymchwil gychwynnol i weithredu'r Cwricwlwm fod ysgolion cynradd ac uwchradd yn nodi'r cyfleoedd addysg gyrfaoedd trawsgwricwlaidd

hyn, ac yn manteisio ar berthynas gadarnhaol â Gyrfa Cymru, yn ogystal ag â chyflogwyr a sefydliadau lleol, i gefnogi'r hyn a ddarperir ganddynt.

61. Byddwn yn dal i weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i ddeall effaith eu cefnogaeth i ysgolion, gan gynnwys datblygu darpariaeth CWRE ddiddorol sy'n codi ymwybyddiaeth dysgwyr am sgiliau a swyddi gwyrdd. Byddwn hefyd yn hyrwyddo twf gwyrdd a swyddi gwyrdd fel llwybr gyrfa yn Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills y DU, sy'n cael eu cynnal yng Nghymru ym mis Tachwedd.

Ariannu'r trawsnewidiad i sero-net (14, 15 a 16)

62. Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth buddsoddi sero net hirdymor.

63. Ymateb: Gwrthod

64. Mae'r Prif Weinidog yn glir nad oes angen unrhyw strategaethau pellach arnom; mae angen gweithredu a chyflawni. Mae ein Cenhadaeth Economaidd yn gwbl gyson â'n cynllun Sero Net, ein taith i sero net a Chymru wyrddach, gryfach a thecach. Mae'n canolbwyntio ar ein hail gyllideb garbon (2021 - 2025). Mae hyn yn edrych tua'r dyfodol hefyd at adeiladu'r sylfeini ar gyfer Cyllideb Carbon 3, ein targed ar gyfer 2030, a'n targed Sero Net ar gyfer 2050.

65. Bydd ein Huwchgynhadledd i Fuddsoddwyr yn dod â buddsoddwyr i Gymru yn yr economi wyrddach honno, bydd yn cyflwyno'r cyfleoedd sydd gan y wlad hon i'w cynnig a'r trawsnewidiad ynni sydd eisoes wedi dechrau. Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau a monitro budd ychwanegol Strategaeth Ddiwydiannol 10 mlynedd y DU a'i heffaith ar bontio i Sero net yn ogystal â chynyddu cynhyrchiant a swyddi yng Nghymru.

66. Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Banc Datblygu Cymru i nodi'r camau y dylai'r Banc eu cymryd i chwarae mwy o ran wrth gyfrannu at yr hyn a alwdd y Banc y "genhadaeth economaidd unigol fwyaf yng Nghymru" – sef cyflawni sero net. Dylai hyn gynnwys cymorth ar gyfer buddsoddiad y sector preifat a darpariaeth ynni cymunedol.

67. Ymateb: Derbyn

68. Roedd llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru at y banc yn nodi'n glir bod disgwyl i BDC chwarae ei rôl lawn, drwy fynnu bod busnesau'n newid eu hymddygiad a'u harferion er mwyn symud ein heconomi tuag at Sero Net a'n

nodau amgylcheddol ehangach, gan wneud y gorau o'r cyfleoedd economaidd y bydd y gweithgareddau hyn yn eu cynnig yn y dyfodol. Mae cynllun corfforaethol y banc yn disgrifio'i ymateb i'r cylch gorchwyl hwn, sy'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd ac yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru. Mae'r banc yn parhau i roi'r cynllun corfforaethol ar waith ac mae wedi sefydlu Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd (GBLS).

69. Ers 2023 mae'r GBLS wedi rhoi benthyc dros £7.5m o gyllid i fentrau bach a chanolig i fuddsoddi mewn technolegau arbed ynni, i leihau eu costau gweithredu a thrwy hynny eu helpu i leihau allyriadau. Mae BDC yn gweithredu Cronfa Ynni Leol hefyd, gwerth £12.5m i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy o dan arweiniad y gymuned sy'n cynyddu swm yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yng Nghymru.

70. Yn sgil rhedeg cynllun peilot y GBLS, mae'r banc bellach mewn sefyllfa i allu chwarae rhan flaenllaw ym Mhrosiect Perseus. Mae'r prosiect hwn (o dan oruchwyliaeth IoD, ICAEW, UK Finance a Banc Busnes Prydain) yn datblygu'r cynllun data clyfar traws-sectoraidd mwyaf blaengar yn y DU er mwyn gallu rhoi benthyciadau gwyrdd gydag adroddiadau atomataidd ar allyriadau. Mae hwn yn ddatblygiad aruchel ac arwyddocaol sy'n tynnu sylw at rôl arloesol y banc a sut mae'n cyfrannu at fentrau ledled y sector.

71. Argymhelliaid 16: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pob ysgogiad posibl i flaenoriaethu buddsoddiad yn y newid i economi wyrddach, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid fel Llywodraeth y DU, y Gronfa Gyfoeth Wladol ac awdurdodau lleol i fuddsoddi ar y cyd mewn prosiectau lle bo'n briodol. Dylai gwariant ganolbwyntio ar gyfleoedd i drosoli buddsoddiad gan y sector preifat a llenwi bylchau buddsoddi posibl.

72. Ymateb: Derbyn

73. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gronfa Gyfoeth Wladol i helpu i ysgogi'r sector preifat i fuddsoddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio â Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i nodi'r holl gyfleoedd posibl i fuddsoddi ar y cyd mewn prosiectau ac adeiladu piblinellau buddsoddi i gefnogi'r trawsnewidiad i economi wyrddach.

74. Y Gronfa Gyfoeth Wladol yw'r prif sbardun i wireddu 'cenhadaeth twf glân' Llywodraeth y DU ledled y DU ac mae'n rhannu'r un uchelgeisiau a gwerthoedd â Llywodraeth Cymru, i ysgogi twf economaidd, creu swyddi newydd o ansawdd ym maes ynni adnewyddadwy, tra'n lleihau ein heffaith garbon.

75. Amcan yr NWF yw darparu'r cyllid cyfalaf angenrheidiol i ysgogi'r sector preifat i fuddsoddi ledled y DU a fydd yn cefnogi ei chenhadaeth twf ac ynni glân'. Mae wedi ymrwymo i weithio ar y cyd â Banc Datblygu Cymru a phartneriaid rhanbarthol i ddarparu cyngor a chymorth benthyca ariannol a masnachol drwy gydol y cylch buddsoddi i wireddu blaenoriaethau lleol, gan eu cefnogi i ddatblygu prosiectau yn eu cyfnod cynnar.

3. Casgliadau

Mynd ati'n strategol i ddatgarboneiddio'r economi

76. Casgliad 1: Mae'r economi werdd yn gyfle y mae'n rhaid manteisio arno'n gyflym. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n gyflym gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i gefnogi datgarboneiddio, wedi'i ategu gan bontio teg, a hynny er mwyn helpu Cymru i wireddu yn llawn y cyfleoedd a gyflwynir. Yn ei thro, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y defnydd mwyaf o bartneriaethau cyhoeddus-preifat i ysgogi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy.

77. Ymateb: Cytuno

78. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen i'r pontio i economi werdd fod yn seiliedig ar bartneriaethau traws-sectorol, i'w gwneud yn gyflymder ac i gynnwys buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio â Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i nodi'r holl gyfleoedd posibl i fuddsoddi ar y cyd mewn prosiectau ac adeiladu piblinellau buddsoddi i gefnogi'r trawsnewidiad i economi wyrddach.

79. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £4.5m arall i'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd yn 2025-26 ac mae'r banc yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ledled y DU, drwy Brosiect Perseus, ar y mecanweithiau fydd yn sail ar gyfer gallu rhannu data ar allyriadau ar lefel busnes i ddatgloi cyllid gwyrdd. Mae mentrau o'r fath yn hanfodol i sefydlu cysylltiad credadwy rhwng yr economi ariannol a'r economi go iawn, hynny er mwyn cael llwybr clir i sero net mewn ffordd ddiogel, all dyfu ac a fydd yn sicr o ddigwydd.

80. Y Gronfa Gyfoeth Wladol (NWF) yw'r prif sbardun i wireddu 'cenhadaeth twf glân' Llywodraeth y DU ledled y DU ac mae'n rhannu'r un uchelgeisiau a gwerthoedd â Llywodraeth Cymru, i ysgogi twf economaidd, creu swyddi newydd o ansawdd ym maes ynni adnewyddadwy, tra'n lleihau ein heffaith garbon.

81. Amcan yr NWF yw darparu'r cyllid cyfalaf angenrheidiol i ysgogi'r sector preifat i fuddsoddi ledled y DU a fydd yn cefnogi ei chenhadaeth twf ac ynni glân'. Mae wedi ymrwymo i weithio ar y cyd â Banc Datblygu Cymru a phartneriaid rhanbarthol i ddarparu cyngor a chymorth benthycia ariannol a masnachol ac ariannol drwy gydol y cylch buddsoddi i wireddu blaenoriaethau lleol, gan eu cefnogi i ddatblygu prosiectau yn eu cyfnod cynnar.

82. Casgliad 2: Dylai Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio'n gyflym i ddatblygu strategaeth ddiwydiannol sy'n darparu gweledigaeth glir ar gyfer datgarboneiddio economi Cymru. Rhaid i'r strategaeth hwyluso Llywodraeth Cymru i gymryd rôl arweiniol allweddol wrth ddatgarboneiddio diwydiant Cymru.

83. Ymateb: Cytuno

84. Rydym yn parhau i ymrwymo i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU i ddatblygu'r Strategaeth Ddiwydiannol. Mae Llywodraeth y DU yn rhannu ein huchelgeisiau a'n gwerthoedd, er mwyn ysgogi twf economaidd, creu swyddi newydd o ansawdd mewn ynni adnewyddadwy, tra'n cadw ein heffaith garbon mor fach â phosibl. Byddwn yn dal i gydweithio ac yn rhoi mewnbwn cadarnhaol trwy ddatblygu cynlluniau sector, gan gynnwys ar gyfer yr holl ddiwydiannau ynni glân. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu drwy'r IMG Busnes a Diwydiant, cyfrwng allweddol ar gyfer hyrwyddo Strategaeth Ddiwydiannol Cymru a'r DU gyda'i gilydd a sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus.

85. Trwy gefnogi diwydiannau ynni glân y DU mae cyfle i gyflymu cyfleoedd twf a swyddi, sy'n cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth y Prif Weinidog. Byddwn yn parhau i weithio i ganolbwyntio ar gyfleoedd ariannu, lle er enghraifft bydd y Gronfa Gyfoeth Wladol yn ymrwymo o leiaf £5.8 biliwn dros gyfnod Senedd y DU i hydrogen gwyrdd, dal carbon, porthladdoedd, gigaffatrioedd a dur gwyrdd. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanbarthau i helpu i wneud y gorau o bob cyfle ac mewn meysydd gyda Llywodraeth y DU ar draws Porthladdoedd Rhydd, Parthau Buddsoddi a Bargeinion Dinas a Thwf i helpu i wireddu ein cryfderau a gwneud y gorau o gyfleoedd.

86. Mae Cymru wedi ffynnu ar economi amrywiol sydd wedi'i gwreiddio mewn gweithgynhyrchu a gall symud yn ei blaen mewn symudiad cyffrous tuag at ynni adnewyddadwy. Nid dim ond anghenraid yw'r trawsnewidiad hwn. Mae'n gyfle i fusnesau bach a chanolig ffynnu, gan greu cadwyni cyflenwi newydd a meithrin gyrfaedd gwerth chweil yn yr ardaloedd hynny yng Nghymru sydd wedi gweld diboblogi. Fe wnaethom gyhoeddi Llyfryn Datgarboneiddio Busnes ym mis Chwefror 2025, sy'n dwyn ynghyd mewn un lle y cyd-destun strategol, tystiolaeth sy'n ffrwyth ymchwil i garbon ac effeithiau ariannol a chyfeiriadau at gyfoeth o gymorth technegol ac ariannol.

87. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio a chefnogi drwy Diwydiant Sero Net Cymru, Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru i gefnogi busnesau ac i helpu i wireddu'r cyfleoedd y mae sero net yn eu cynnig.

88. Casgliad 3: Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio partneriaethau cyhoeddus-preifat i ysgogi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy. Fel rhan o hyn dylai wneud ceisiadau uchelgeisiol ond realistig i ddatblygwyr masnachol fel amodau buddsoddiad y llywodraeth.

89. Ymateb: Cytuno

90. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod partneriaethau ar draws sectorau a chyda datblygwyr masnachol yn hanfodol i ysgogi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy.

Blaenoriaethau ynni adnewyddadwy

91. Casgliad 4: Mae seilwaith rhwydwaith pŵer gwan yn fater y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef er mwyn cefnogi'r broses o ddatgloi potensial economi werdd a thwf gwyrdd Cymru.

92. Ymateb: Cytuno mewn egwyddor

93. Mae'r rhwydwaith grid presennol yn darparu cyflenwad diogel, gwydn a sefydlog sydd wedi cwrdd â defnydd hanesyddol. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'n hadroddiad Gridiau'r Dyfodol i Gymru yn dangos y gallai'r galw am drydan yng Nghymru bron â threblu erbyn 2050 ac mae diweddarau grid Cymru yn hanfodol os ydym am gael system ynni sy'n addas i'r diben yn y tymor hir. Bydd cynnydd sylweddol mewn trydan adnewyddadwy i fodloni hyd at dair gwaith y galw presennol yn gofyn am seilwaith newydd ar gyfer y rhwydwaith trawsyrru trydan. Mae'r adroddiad yn tystio'n glir y bydd cynnydd yn y galw am drydan brig yn creu angen i atgyfnerthu'r rhwydwaith dosbarthu trydan.

94. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â chwmnïau rhwydwaith a sefydliadau allweddol eraill sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith ynni gan gynnwys Ofgem, yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, a Gweithredwr Ynni'r System Genedlaethol (NSEO). Mae'r cwmnïau a'r sefydliadau hyn yn gyfrifol am gysylltiadau'r grid yng Nghymru, ac am gynllunio strategol ar gyfer gwella capasiti'r grid a chryfhau rhwydweithiau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain cynllunio ynni yng Nghymru ar lefel awdurdod lleol i nodi anghenion yn y dyfodol. Mae hynny wedi golygu gweithio'n agos â chwmnïau'r rhwydwaith gan ddarparu tystiolaeth sy'n llywio cynlluniau'r cwmnïau rhwydwaith.

95. Mae swyddogion hefyd yn aelodau o'r pwyllgor sy'n goruchwyllo Cynllun Ynni Gofodol Strategol NSEO, a fydd yn ei dro yn llywio'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog. Rydym eisoes yn gweithio gyda'r Cynllunydd System Ynni Rhanbarthol ar gyfer Cymru sydd newydd ei lansio, a fydd yn gyfraniad pwysig at ddatblygu cynllun cydlynol ar gyfer rhwydweithiau nwy a thrydan yng Nghymru sy'n bodloni blaenoriaethau pobl a busnesau Cymru.



Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Difrod a chau Porthladd Caergybi yn dilyn storm: Canfyddiadau cychwynnol.

14/05/2025

Isod mae ymatebion Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor yn adroddiad mis Ebrill 2025: Difrod a chau Porthladd Caergybi yn dilyn storm: Canfyddiadau cychwynnol.

Cynnwys

1. **Argymhellion**Error! Bookmark not defined.
2. **Casgliadau**1Error!
Bookmark not defined.

1. Argymhellion

Argymhelliad 1

Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd o gau'r porthladd a chyhoeddi'r canfyddiadau. Dylai hyn gynnwys gwersi o'r ymateb aciwt i'r cyfnod cau, ond hefyd unrhyw wersi trosfwaol o'r digwyddiad parhaus.

Ymateb: Gwrthod

1. Yn gyntaf, rydyn ni'n ail-bwysleisio bod y porthladdoedd sy'n delio â thraffig Môr Iwerddon yng Nghymru yn endidau masnachol, sydd naill ai'n eiddo preifat ac yn cael eu gweithredu'n breifat, neu'n gweithredu ar sail Ymddiriedolaeth.
2. Rydyn ni wedi ymrwymo i gyflawni gwaith y Tasglu ar gydnerthedd y cysylltedd môr rhwng Cymru ac Iwerddon yn dilyn cau Porthladd Caergybi dros dro.
3. Bydd ail gyfarfod y Tasglu'n canolbwytio ar gynlluniau wrth gefn. Bydd y gwersi a nodir yn rhan hollbwysig o'r drafodaeth yn y cyfarfod hwn a bydd pob aelod yn cael cyfle i ystyried y cyfraniad mae'n gallu ei wneud os bydd unrhyw borthladd yn cau yn y dyfodol, a sut gallwn gydweithio i leihau effaith hynny.

Goblygiadau Ariannol: dim

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r digwyddiad fod wedi'i reoli'n well pe bai'r Ysgrifennydd Cabinet penodol yn arwain ymateb Llywodraeth Cymru. Mewn unrhyw ddigwyddiadau o'r raddfa neu'r cymhlethdod hwn yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar arweinydd Gweinidogol a fydd yn goruchwyllo ac yn atebol am reoli'r ymateb.

Ymateb: Gwrthod

4. Gan gydnabod bod modd gwella'r trefniadau ymateb i ddigwyddiad bob amser, rydyn ni'n gwrthod yr honiad na chafodd y digwyddiad hwn ei reoli'n dda. Mae'r canlyniad yn dweud y cyfan.
5. Drwy arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon, a chydweithredu effeithiol rhwng rhanddeiliaid y sector, roedd modd i bobl a nwyddau groesi Môr Iwerddon cyn gwyliau'r Nadolig. Rydyn ni'n credu'n gryf bod ymateb Llywodraeth Cymru wedi elwa ar allu ac arbenigedd sector y ddau Ysgrifennydd Cabinet.

Goblygiadau Ariannol: dim

Argymhelliad 3

Mae'r Aelodau'n teimlo nad oes ganddynt ddarlun clir o hyd o sut y datblygodd ymateb Llywodraeth Cymru i'r digwyddiad a chau'r porthladd. Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen o gamau mewnol a gymerodd mewn ymateb i'r cyfnod cau o'r gwrthdrawiad cyntaf ar 6 Rhagfyr 2024. Dylai hyn gynnwys camau a gymerwyd i gael y data masnach diweddaraf gan CThEF.

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

6. O 6 Rhagfyr 2025 ymlaen, defnyddiwyd trefniadau Argyfwng Sifil Posibl Llywodraeth Cymru i ddelio â chau Porthladd Caergybi, fel rhan o'r ymateb ehangach i Storm Darragh. Mae gweithdrefnau ac arferion timau Argyfwng Sifil Posibl wedi hen ennill eu plwyf, a chawsant eu defnyddio fel rhan o'r ymateb hwn. Roedd adroddiadau sefyllfa, a oedd yn cofnodi pob diweddariad, yn cael eu cynhyrchu bob dydd.
7. Roedd Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ochr yn ochr â Chyngor Sir Ynys Môn, wedi gweithredu eu trefniadau pentyrru ar gyfer cau porthladdoedd, sydd hefyd wedi hen ennill eu plwyf.
8. Ar 7 Rhagfyr, roedd yr adroddiad sefyllfa yn cadarnhau y byddai Porthladd Caergybi ar gau tan ddydd Llun 9 Rhagfyr ar y cynharaf o ganlyniad i'r difrod strwythurol yn y porthladd.
9. Ar 11 Rhagfyr, dywedodd e-bost gan y Rheolwr Gweithrediadau yn Stena Line Ports, bod yr arolygiadau deifio "wedi bod yn galonogol.....a'u bod yn hyderus iawn y byddai modd ailagor ar 12 Rhagfyr."
10. Ar 12 Rhagfyr, nododd e-bost gan Stena Line Ports fod angen gwneud arolygiadau pellach ac y byddent yn aros 24 arall cyn ailagor. Hefyd, dywedodd Stena Line Ports eu bod yn cysylltu â chwsmeriaid cludo nwyddau a'u bod yn rhedeg gwasanaethau ychwanegol i Abergwaun a Birkenhead. Eto, roedd y ddau weithredwr llongau yn dal yn cymryd archebion ar gyfer teithiau yn y dyfodol. Ar 12 Rhagfyr, oherwydd y sefyllfa a oedd yn datblygu o ran traffig cerbydau nwyddau trwm sylweddol ar Ynys Môn, awgrymodd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn gryf y byddai'n fwy priodol i weithredwr y porthladd gyfathrebu i ddweud y byddai'r porthladd ar gau nes y cyhoeddir yn wahanol, er mwyn osgoi problemau lles posibl i'r rhai sy'n teithio i'r ardal.
11. Yn hwyr y prynhawn ar 12 Rhagfyr, cafodd CSTNW gyfarfod â Stena Line Ports a Chyngor Sir Ynys Môn i drafod y ffaith fod y porthladd yn dal ar gau, a'r

camau roedd Stena Line Ports yn eu cymryd i ailgychwyn gwasanaethau. Dywedodd Awdurdod y Porthladd wrth Ysgrifennydd y Cabinet ac Arweinydd yr Awdurdod Lleol y byddai'r porthladd ar gau tan 19 Rhagfyr. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig cefnogi Awdurdod y Porthladd, ond cafodd y cynnig ei wrthod.

12. Ar 12 Rhagfyr, nid oedd cau Porthladd Caergybi yn cael ei ystyried yn fater argyfwng sifil posibl mwyach wrth i gerbydau nwyddau trwm ddechrau symud i borthladdoedd eraill, gan leihau'r effeithiau uniongyrchol ar Ynys Môn ond cynyddu'r pwysau mewn mannau eraill (Birkenhead a Cairnryan). Yn Llywodraeth Cymru, cafodd y mater ei symud i gylch gwaith yr Is-adrannau Trafnidiaeth.
13. Ar 14 Rhagfyr, cafodd Datganiad Ysgrifenedig ei gyhoeddi: [Datganiad Ysgrifenedig: Cau Porthladd Caergybi \(14 Rhagfyr 2024\)](#).
14. Ar ddydd Sul 15 Rhagfyr, cafodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru gyfarfod â Gweinidogion Iwerddon i drafod y sefyllfa ym mhorthladd Caergybi ac i nodi camau gweithredu i liniaru effeithiau cau'r porthladd dros dro. Bryd hynny, ar sail y wybodaeth gan Awdurdod y Porthladd ei hun, roedd disgwyl i'r cyfnod cau bara tan 19 Rhagfyr. Ar 17 Rhagfyr, trefnodd Stena Line Ports gyfarfod â Gweinidogion Llywodraeth Iwerddon, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Wrth ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei sefyllfa ar 12 Rhagfyr, cadarnhaodd Awdurdod y Porthladd y byddai Porthladd Caergybi ar gau tan 15 Ionawr ar y cynharaf. Rhoddodd Stena Line Ports wybod i'r ddwy lywodraeth ar yr un pryd ag y rhoddodd wybod i'r sector ac i'r cyhoedd drwy ddatganiad i'r wasg. Diwrnod hwnnw, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gyd-hysbysiad â Llywodraeth Iwerddon: [Gyd-hysbysiad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon – Porthladd Caergybi \(17 Rhagfyr 2024\)](#).
15. Roedd Swyddogion o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru yn gweithio ar wahanol agweddau ar y sefyllfa. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adroddiadau sefyllfa dyddiol gyda mewnbwn Swyddfa Dulyn Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Iwerddon, Stena Line Ports, Stena Line Ferries, Irish Ferries, porthladdoedd ar draws Cymru a Lerpwl, llywodraeth leol a chwmnïau cludo nwyddau.
16. Roedden ni wedi cymryd camau i nodi, hwyluso a sicrhau capasiti uwch ym mhorthladdoedd Cymru, gan annog porthladdoedd a gweithredwyr i ychwanegu llwybrau eraill, wedi nodi a rheoli problemau pentyrru posibl

mewn porthladdoedd lle roedd y capasiti'n cael ei gynyddu, ac wedi monitro niferoedd dyddiol yr holl nwyddau a theithwyr a oedd yn croesi yn erbyn y capasiti.

17. Roedden ni wedi sicrhau bod darpariaeth trafnidiaeth amgen ar gael, fel lleoedd ychwanegol ar drenau a gwasanaethau bws i alluogi teithwyr i gyrraedd porthladdoedd eraill.
18. Roedden ni wedi canolbwyntio ar gyfathrebu â'r cyhoedd drwy amrywiaeth o ddatganiadau ysgrifenedig a diweddariadau ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â siarad yn uniongyrchol â chwmnïau cyfryngau. Roedd hyn yn ategu'r diweddariadau uniongyrchol gan Awdurdod y Porthladd a gweithredwyr llongau.
19. Ar 19 Rhagfyr, cyhoeddodd ni Ddatganiad Ysgrifenedig i nodi'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud: Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cau porthladd Caergybi dros dro (19 Rhagfyr 2024).
20. Roedd y gwaith wedi parhau drwy gydol y Nadolig. Roedd swyddogion yn cael cyfarfodydd â rhanddeiliaid bob dydd bron.
21. Ar 7 Ionawr 2025, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru ddatganiad yn ystod y Cyfarfod Llawn, a chymerodd ran mewn trafodaeth lawn ar gau'r porthladd: Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Porthladd Caergybi (7 Ionawr 2025) – Eitem 5.
22. Roedd swyddogion yn cael trafodaethau rheolaidd â Stena Line Ports i gadarnhau 16 Ionawr fel y dyddiad ailagor ac i sicrhau cysondeb yn y cyfathrebiadau ynghylch ailagor y porthladd.
23. Ar 16 Ionawr, cyhoeddodd ni Ddatganiad Ysgrifenedig yn dilyn ailagor Porthladd Caergybi: Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Llywodraeth Cymru yn dilyn Ailagor Porthladd Caergybi (16 Ionawr 2025)

Goblygiadau ariannol: dim

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu ar fyrder pa gymorth ariannol a chymorth arall y bydd yn ei roi i fusnesau lleol yr effeithir arnynt gan y cyfnod cau, a chyfleu'n gyhoeddus y rhesymau dros ei phenderfyniad.

Ymateb: Gwrthod

24. Rydyn ni'n tynnu sylw'r Pwyllgor at y ffaith nad Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar borthladd Caergybi: mae'n borthladd sy'n eiddo preifat ac sy'n cael ei weithredu'n breifat. Felly, nid Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y seilwaith a fethodd.
25. Er yr uchod, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi bod yn gyson barod i roi cymorth i fusnesau y mae cau'r porthladd wedi effeithio arnynt, yn amodol ar drafod a chadarnhau'r gofynion gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r agwedd a fabwysiadwyd pan oedd rhaid cau Pont Menai ar frys ym mis Hydref 2022, a oedd wedi effeithio ar fusnesau ym Mhorthaethwy a'r cyffiniau.
26. O ran yr amserlen, ar 20 Rhagfyr cytunodd swyddogion Llywodraeth Cymru a'u swyddogion cyfatebol yng Nghyngor Sir Ynys Môn ar y dull ar y cyd canlynol o asesu a deall effaith cau'r porthladd ar fusnesau:
- bod y Cyngor a Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio'n agos;
 - ein bod yn dysgu o'n profiadau (gwersi a ddysgwyd) o gau Pont Menai i gasglu gwybodaeth gan fusnesau lleol (Caergybi a'r Ynys);
 - bydd porth ar-lein yn cael ei lansio cyn bo hir ym mis Ionawr i rannu tystiolaeth o effaith cau'r porthladd;
 - rydyn ni'n awyddus i gofnodi'r effeithiau ar yr economi, ar gyflogaeth, ar y gadwyn gyflenwi, ac ar gymunedau;
 - Roedd Busnes Cymru'n barod i ymateb i ymholiadau busnes fesul achos.
27. Cafodd Cau Porthladd Caergybi: Adroddiad Cryno ar Ganlyniadau'r Arolwg Effaith ei gyflwyno i ni gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 14 Chwefror. Cafodd y gwaith hwn ei wneud ochr yn ochr ag astudiaeth achos, wedi'i hariannu gan Raglen Trefi Smart Llywodraeth Cymru. Roedd 'Astudiaeth Achos Trefni Smart Cymru' wedi mesur effaith cau'r porthladd ar Stryd Fawr Caergybi rhwng 6 Rhagfyr 2024 a 15 Ionawr 2025.

28. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol â'r Prif Weithredwr ar 19 Chwefror i ystyried canfyddiadau'r adroddiadau a'r ymatebion posibl. Dilynwyd hyn gan e-bost ar 21 Chwefror yn cadarnhau'r potensial i ddatblygu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau ac yn gwahodd amserlen fras, a gan e-bost dilynol ar 5 Mawrth yn amlinellu dau opsiwn posibl o ran ardrethi annomestig i'r awdurdod lleol eu hystyried, a allai ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau oedd wedi teimlo'r effaith.
29. Ysgrifennodd Cyngor Sir Ynys Môn at Lywodraeth Cymru ar 10 Ebrill yn amlinellu'n ffurfiol ei becyn arfaethedig o gymorth i fusnesau. Mae'r arfarniad cychwynnol o'r ystod eang o weithgareddau yn awgrymu y byddent yn helpu i ateb yr heriau sy'n bygwth bywiogrwydd canol tref Caergybi a'r economi ymwelwyr ehangach. Ar y sail honno, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol a bydd yn gweithio'n gyflym gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ddatblygu a chytuno ar gyllid er mwyn gallu cymryd y camau hyn mor gyflym â phosibl.

Goblygiadau Ariannol: wedi'u rheoli o fewn y gyllideb bresennol

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu ei gwaith i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm y Pwyllgor, a chyflwyno'r strategaeth porthladdoedd a morol a'r cynllun cludo nwyddau fel mater o frys unwaith y bydd y tasglu wedi cwblhau ei waith.

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

30. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflymu gwaith ar y Strategaeth Logisteg a Chludo Nwyddau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â gwaith y Tasglu.

31. Bydd lles gyrwyr a pharcio diogel yn cael eu hystyried fel rhan o'r strategaeth. Byddwn hefyd yn dysgu o'r hyn mae pobl eraill yn ei wneud yn y maes hwn.

Goblygiadau Ariannol: dim

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu monitro gwaith Tasglu Môr Iwerddon. I gynorthwyo gyda hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi manylion llawn ei chylch gorchwyl, aelodaeth a thasgau, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Tasglu roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd. Dylai amcanion Tasglu Môr Iwerddon gynnwys:

- Deall y ffactorau a achosodd y digwyddiadau yng Nghaergybi i ddeall a oes unrhyw oblygiadau i'r sector porthladdoedd ehangach neu bolisiâu porthladdoedd;
- Sicrhau diogelwch y porthladd yn y dyfodol;
- Gwellu cyfleusterau i yrwyr yng Nghaergybi/ar y ffordd i Gaergybi;
- Asesu gwydnwch y cysylltiadau trafnidiaeth i Gaergybi, a'u gwella, gan gynnwys ystyried cysylltiadau rheilffordd;
- Cefnogi hyfywedd hirdymor y porthladd ac osgoi dargyfeirio masnach;
- Sicrhau bod cynllun wrth gefn cryf ar gyfer unrhyw gyfnodau cau yng Nghaergybi yn y dyfodol, a phorthladdoedd yng Nghymru yn gyffredinol. Dylai hyn gynnwys rheoli traffig, cyfathrebu, gweithredu llwybrau morol amgen a chymorth i fusnesau lleol.

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

32. Mae Cylch Gorchwyl y Tasglu yn nodi ar ba brif feysydd y bydd yn canolbwyntio. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gael yma: [Tasglu ar y cysylltiad môr rhwng Cymru ac Iwerddon: cylch gorchwyl | LLYW.CYMRU](#)
33. Yn ystod cyfarfod cyntaf y Tasglu, cytunodd yr aelodau y byddai cyfarfodydd y Tasglu yn y dyfodol yn cynnwys: cynllunio wrth gefn; cyfarfod sy'n canolbwyntio ar Gaergybi; cyfarfod ynghylch llwybrau deheuol yn benodol; a datblygu porthladdoedd yn y dyfodol. Bydd cyfarfod terfynol yn adolygu pob sesiwn thematig a bydd aelodau o'r Tasglu'n cytuno ar gamau gweithredu allweddol. Bydd y cynnydd yn erbyn y camau hyn yn cael ei fonitro, gydag ymrwymiad i adolygu ar ôl 6 mis.
34. Bydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, yn ogystal ag aelodau eraill o'r Grŵp Cyswllt, drwy nodyn yn dilyn pob cyfarfod.
35. Gan fod Porthladd Caergybi yn eiddo preifat ac yn cael ei reoli'n breifat, mater i Stena Line Ports yw diogelwch y porthladd a'i hyfywedd hirdymor.

36. Mae diogelwch porthladdoedd a morol yn fater wedi'i gadw'n ôl gan Lywodraeth y DU. Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 6 Mawrth, rydyn ni wedi cyflwyno gwybodaeth bellach am reoleiddio porthladdoedd i'r Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol: dim

2. Casgliadau

Casgliad 1

Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, mae llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb Gweinidogol yn aneglur i'r Pwyllgor ac i randdeiliaid allweddol sy'n ymwneud â'r ymdrechion ymateb ac adfer. Cred yr Aelodau y gallai'r dryswch hwn fod wedi gwaethygu problemau gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng hwn.

Ymateb:

37. Fel y nodwyd yn flaenorol yn ein hymateb i Argymhelliaid 2, gan gydnabod bod modd gwella'r trefniadau ymateb i ddigwyddiad bob amser, rydyn ni'n gwrthod yr honiad na chafodd y digwyddiad hwn ei reoli'n dda.
38. Cafodd y Pwyllgor esboniad o atebolrwydd a chyfrifoldeb Gweinidogion. I ddechrau, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru arweiniodd yr ymateb i gau Porthladd Caergybi, gan ei fod yn fater a oedd yn ymwneud â gogledd Cymru yn y lle cyntaf. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi defnyddio eu harbenigedd priodol i lywio ymateb Llywodraeth Cymru.
39. Mae ymateb i ddigwyddiad o'r fath yn elwa ar arbenigedd cyfunol pawb sy'n rhan o'r gwaith.

Casgliad 2

Roedd y Pwyllgor wedi'i siomi gan y diffyg cyflymder a brys ymddangosiadol yn ymateb Llywodraeth Cymru i gau porthladd fferi prysuraf Cymru ar hyd llwybr masnach Ewropeaidd hollbwysig. Prin yw'r dystiolaeth a welodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'r cyfnod cau yn ystod y tri mis diwethaf. Cred yr Aelodau mai gweithredu ar lefel leol a chydweithredu rhwng porthladdoedd a rwystrodd cyfnod cau Caergybi rhag bod yn wir drychineb i fasnach Cymru a'r economi.

Ymateb:

40. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr ymateb hwn, mae Porthladd Caergybi yn eiddo preifat ac yn cael ei reoli'n breifat.
41. Yn ystod y cyfnod pan oedd y porthladd ar gau, casglodd Llywodraeth Cymru grŵp o swyddogion ynghyd i gydlynu ymateb strwythuredig er mwyn hwyluso cyfarfodydd rhwng y Llywodraethau a rhanddeiliaid allweddol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfathrebiadau clir a rheolaidd drwy Ddatganiadau Ysgrifenedig a Hysbysiadau i'r Wasg.
42. Roedden ni wedi gweithio gydag adrannau o Lywodraeth y DU i gynyddu'r capasiti o ran teithwyr a nwyddau drwy gael caniatâd ar gyfer teithiau ychwanegol o Ddulyn drwy Abergwaun a Doc Penfro, yn ogystal â chapasiti cludo nwyddau ychwanegol drwy borthladdoedd yn Lloegr. Ar y cyd â'r Adran Drafnidiaeth, roedden ni wedi llacio, ar sail gyfyngedig a dros dro, y broses o orfodi'r rheolau i yrwyr cerbydau yr effeithiwyd arnynt drwy gau Porthladd Caergybi, a oedd wedi achosi ciwiau ac oedi mewn porthladdoedd cyfagos. Yn ogystal â hynny, gan weithio gyda'n partneriaid allweddol, gan gynnwys Cyngor Sir Benfro, Trafnidiaeth Cymru a'n tîm Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, roedden ni wedi sicrhau y byddai cysylltiadau ffordd, rheilffordd a bws i'r gwasanaethau newydd hyn yn gweithredu'n ddidrafferth, a bod y capasiti'n ddigonol ar gyfer y gwyliau, a bod darpariaethau addas ar gyfer parcio ceir a cherbydau nwyddau trwm ar draws Sir Benfro.
43. Ers cau'r porthladd, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi'r diwydiant drwy sefydlu Tasglu Môr Iwerddon. Byddwn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn pob cyfarfod.
44. Mae'n siomedig nad yw adroddiad y Pwyllgor yn cydnabod ymateb ac ymdrechion Llywodraeth Cymru a hefyd Llywodraeth Iwerddon yn casglu

partneriaid a phartïon ynghyd i liniaru effeithiau cau Porthladd Caergybi ar ddwy ochr Môr Iwerddon.

45. Rydyn ni'n credu yn yr egwyddor o sybsidiaredd mewn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. Dylid rheoli digwyddiadau ar lefel mor lleol â phosibl, a bod haenau uwch llywodraeth yn ymyrryd dim ond yn ôl y gofyn/yr angen. Rydyn ni'n disgwyl i borthladdoedd a rhanddeiliaid lleol arwain y gwaith o reoli digwyddiadau o'r fath, gan sicrhau bod y llywodraeth yn cael diweddariadau dibynadwy a phrydlon, a bod llywodraeth ganolog yn ymyrryd i sicrhau cyd-drefniant cenedlaethol a rhyngwladol. Rydyn ni hefyd yn atgoffa'r Pwyllgor mai endidau masnachol yw'r porthladdoedd hyn.

Casgliad 3

Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan bod y gwaith a wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn rhoi darlun clir o sut yr effeithiodd y cyfnod cau ar fusnesau, mae'r Aelodau'n pryderu ynghylch y diffyg dealltwriaeth o'r effaith a gafwyd ar y gweithlu. Er enghraifft, hoffai'r Pwyllgor gael darlun cliriach o effeithiau colli swyddi ac oriau gwaith ar aelwydydd. Ar gyfer hyn, ac unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall weithio gyda phartneriaid i ddeall yn uniongyrchol yr effaith ar weithwyr, yn ogystal â busnesau.

Ymateb:

46. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr ymateb hwn, roedd Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru a'u swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol yng Nghyngor Sir Ynys Môn. O ran yr effaith ar fusnesau, cafodd hyn ei archwilio drwy Dîm Datblygu Economaidd y Cyngor a'r dull a nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 4 uchod, gan barchu'r egwyddor o sybsidiaredd ac mai'r Cyngor oedd yn y sefyllfa orau i gael manylion am yr effeithiau economaidd lleol.
47. Er bod y dull y cytunwyd arno gyda'r Cyngor yn nodi y byddem yn mynd ati i "gofnodi'r effeithiau ar yr economi, ar gyflogaeth, ar y gadwyn gyflenwi, ac ar gymunedau", rydyn ni'n cydnabod bod bwlch yn y data yn hyn o beth. Hefyd, mae'n anodd cael dealltwriaeth gywir o'r effeithiau gan fod yr arolwg yn rhedeg am wythnos pan oedd y porthladd ar gau ac am bythefnos ar ôl i'r porthladd ailagor. Efallai fod yr ymatebwyr cychwynnol wedi seilio eu hatebion ar y dybiaeth y byddai llai o deithiau bob dydd, ond pan ailagorwyd y porthladd, roedd nifer y teithiau yn dal yr un peth o un lanfa, ond gydag amserlen ddiwygiedig a allai fod wedi effeithio ar fasnach leol.
48. Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn fel rhan o'n gwaith parhaus gyda Chyngor Sir Ynys Môn a rhanddeiliaid lleol eraill, yn ogystal â chyfarfod y Tasglu a fydd yn canolbwyntio ar Gaergybi.

Casgliad 4

Amlinellodd y Pwyllgor bryderon ynghylch dargyfeiriadau masnach yn ei adroddiad, Model Gweithredu Targed y Ffin: Y darlun yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddi i sicrhau bod Caergybi yn parhau i fod yn ddewis deniadol i osgoi dargyfeiriadau masnach.

Ymateb:

49. Ers Brexit, mae'r traffig llongau uniongyrchol rhwng Rosslare a'r cyfandir wedi cynyddu'n sylweddol, gan osgoi llwybr y "bont dir" ar draws Cymru a Lloegr. Roedd hyn yn anochel o ganlyniad i greu dwy drefn reoleiddio ar gyfer bwyd, anifeiliaid a phlanhigion, pan mai un drefn oedd yn wreiddiol. Mae Gweinidogion Cymru'n cefnogi trafodaethau Llywodraeth y DU gyda'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n anelu at sicrhau cytundeb newydd a allai ddisodli'r angen am reolaethau Model Gweithredu Targed y Ffin, sydd eisoes ar waith ar arfordiroedd de a dwyrain Lloegr.

50. Mae Gweinidogion Cymru'n dal yn trafod â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod y broses o weithredu Model Gweithredu Targed y Ffin mewn porthladdoedd sy'n wynebu lwerddon yn cael ei gwneud mewn ffordd sy'n trin pob porthladd yn yr un modd, yn cyfrannu'n effeithiol at iechyd pobl, planhigion ac anifeiliaid ledled Prydain Fawr, ac yn lleihau'r costau a'r risg o oedi i fusnesau. Mae hyn oll yn hanfodol er mwyn cynnal cystadleurwydd porthladdoedd Cymru. Bydd cyhoeddiad pellach ar y mater hwn yn cael ei wneud yn ystod yr haf, yn amodol ar gytundeb â gweinyddiaethau eraill.

Casgliad 5

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi diffyg sylw i borthladdoedd a chludo nwyddau yn ystod y Senedd hon. Mae'r Aelodau o'r farn, pe bai mwy o ymgysylltu wedi bod â'r sectorau porthladdoedd a chludo nwyddau, a phe bai'r argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor, Cyfeiriad Newydd ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm, wedi'u gweithredu, y byddai Llywodraeth Cymru wedi bod mewn sefyllfa well i ymateb i'r argyfwng hwn. Rydym o'r farn bod yr oedi i'r strategaeth porthladdoedd a morol a'r cynllun cludo nwyddau yn dangos y gallai diffyg ymgysylltu â'r sectorau hyn fod wedi rhoi Llywodraeth Cymru dan anfantais.

Ymateb:

51. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o bwysigrwydd y sectorau Porthladdoedd a Chludo Nwyddau i economi Cymru, ac wedi cydnabod hyn yn llawn.
52. Rydyn ni'n cael cyfarfodydd rheolaidd â'r sectorau hyn ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth gan swyddogion ac Ysgrifenyddion Cabinet ar draws amrywiaeth o brosiectau, a gofynion busnes fel arfer. Mae ein gwaith maes, ein hymweliadau safle, ein presenoldeb mewn digwyddiadau ffurfiol a'n hymrwymiad clir i sefydlu'r Tasglu yn dangos yn glir y sylw rydyn ni'n ei roi i'r sectorau hyn.
53. Pan oedd Porthladd Caergybi ar gau, roedden ni'n trafod yn barhaus â'n porthladdoedd ac er y byddem yn gallu gwella ein ffordd o drafod â rhai sectorau, nid ydym yn credu y byddai hyn wedi golygu ein bod mewn gwell sefyllfa i ymateb. Rydyn ni'n parhau i wneud gwaith maes cadarnhaol â rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi cynllun porthladdoedd a strategaeth cludo nwyddau yn y dyfodol.

15 Mai 2025

Annwyl Arweinydd,

Bargeinion Dinesig a Thwf

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn cynnal ymchwiliad i'r pedair bargaen ddinesig a thwf rhanbarthol yng Nghymru, ac yn ddiweddar mae wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus. Dyma ysgrifennu i dynnu eich sylw at yr ymgynghoriad a'r ymchwiliad hwn.

Wrth ddatblygu'r ymchwiliad hwn, cytunodd yr Aelodau ein bod yn awyddus i glywed barn cymaint o awdurdodau lleol â phosibl, gan eich bod yn rhanddeiliaid allweddol yn y bargeinion twf. Byddem yn croesawu unrhyw safbwyntiau rydych chi'n gallu eu rhannu ac rydym awyddus yn benodol i glywed eich barn ar y meysydd canlynol ynghylch profiadau eich awdurdod a'ch bargaen dwf:

- Hynt y gwaith hyd yma a'r amserlen ar gyfer ei wneud – gan gynnwys y cynnydd a wneir yn erbyn targedau, ac unrhyw bwysau neu heriau sy'n effeithio ar y gwaith
- Trafod rhai o'r prosiectau a'r buddsoddiadau pwysicaf – gan gynnwys unrhyw lwyddiannau allweddol neu risgiau posibl
- Deall effaith y bargeinion – gan gynnwys lledaenu'r gweithgarwch yn rhanbarthol
- Llywodraethu ac atebolrwydd democrataidd - gan gynnwys rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- Y buddsoddiad sydd ar gael yn y sector preifat
- Sut mae gweithgareddau'r Bargeinion Dinesig a Thwf yn cyd-fynd â'r dirwedd cymorth busnes ehangach – gan gynnwys adolygiad Llywodraeth Cymru o gymorth busnes, ac a oes cyfleoedd i gydweithredu a chydgyssylltu'n fwy â Llywodraeth Cymru.

Os yn bosibl, byddwn yn gwerthfawrogi cael eich cyfraniad erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 23 Mehefin 2025. Diolch ymlaen llaw am eich ymgysylltiad.

Cofion cynnes,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Huw Irranca-Davies AS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros

Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

16 Mai 2025

Annwyl Huw,

Hybu Cig Cymru

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 7 Mai i roi tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i Hybu Cig Cymru. Mewn trafodaethau preifat ar ôl y cyfarfod, roedd yr Aelodau yn chwilfrydig am y berthynas rhwng HCC a byrddau ardollau tebyg eraill. Yn amlwg, mae'r sefydliadau hyn yn cystadlu'n uniongyrchol â'i gilydd mewn rhai meysydd, ond nid ydynt yn cystadlu mewn meysydd eraill a gallent gydweithio yn y meysydd hynny. A fydddech cystal â rhoi eich barn am y berthynas rhwng HCC a'i gymheiriaid gan ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Beth yw'r berthynas bresennol rhwng HCC a byrddau ardollau eraill yn y DU, yn benodol y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a Quality Meat Scotland?
- Faint mae'r sefydliadau'n cydweithio â'i gilydd ar hyn o bryd? A allech chi roi enghreifftiau?
- A yw Llywodraeth Cymru a/neu HCC wedi archwilio ffyrdd i rannu adnoddau ac arfer gorau ymhellach (mewn meysydd nad ydynt yn gystadleuol) rhwng y sefydliadau hyn?
- Beth yw eich barn chi am sut y dylai'r berthynas rhwng y sefydliadau hyn edrych yn y dyfodol ac a fydd rhagor o gydweithio â byrddau ardollau eraill yn cael ei adlewyrchu yng nghytundeb fframwaith newydd Llywodraeth Cymru â HCC?

Gan fod yr ymchwiliad hwn yn ymwneud â gweithrediad sefydliad penodol, hoffwn gwblhau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi rhoi gweithlu neu fwrdd HCC o dan straen diangen

ychwanegol. I gynorthwyo yn yr ymdrech hon, a fyddech cystal ag ymateb i'r llythyr hwn erbyn 29 Mai.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg





Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.wales

30 Mai 2025

Annwyl Andrew

Hybu Cig Cymru

Diolch am eich llythyr yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor ar 7 Mai. Fel y gofynnwyd, rwyf wedi mynd i'r afael â'ch cwestiynau fel y nodir isod:-

1. Beth yw'r berthynas bresennol rhwng HCC a byrddau ardoll eraill yn y DU, yn benodol y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a Quality Meat Scotland?

Mae gan HCC berthynas dda gyda'i chwaer fyrddau ardoll ledled y DU. Mae cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd gan arwain at gyflwyno ymgyrchoedd sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr ledled y DU, prosiectau ymchwil a datblygu yn ogystal â datblygu diwydiant ehangach.

Darperir darlun o'r sianeli cyfathrebu ffurfiol cyfredol yn Atodiad A.

2. Faint o gydweithio sy'n digwydd rhwng y sefydliadau? Allech chi roi enghreifftiau os gwelwch yn dda?

Mae HCC wedi bod mewn cydweithrediad rheolaidd rhwng y sefydliadau. Darperir enghreifftiau o brosiectau cydweithredu dros y blynyddoedd diwethaf yn Atodiad A.

3. A yw Llywodraeth Cymru a/neu HCC wedi archwilio llwybrau ar gyfer rhannu adnoddau ac arferion gorau ymhellach (mewn meysydd nad ydynt yn gystadleuol) rhwng y sefydliadau hyn?

- Oherwydd ei adnoddau cyfyngedig, mae HCC yn edrych yn barhaus am gyfleoedd i roi y gwerth mwyaf i'r rhai sy'n talu ardoll trwy gydweithio â chwaer fyrddau ardoll.
- Lle gellir sicrhau gwell gwerth am arian mewn gweithgarwch nad yw'n gystadleuol, mae dealltwriaeth ymhlwg y dylid ceisio cydweithio â chwaer fyrddau ardoll.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Fel cwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei weithredu'n annibynnol, mae HCC hefyd yn gallu gwneud y mwyaf o werth gweithgareddau, ymchwil a phresenoldeb mewn digwyddiadau drwy gydweithio o fewn sector cyhoeddus ehangach Cymru, sy'n sensitif i anghenion unigryw y diwydiant yng Nghymru o fewn ei gyd-destun deddfwriaethol a pholisi datganoledig.
 - Mae gan Ddynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru safle unigryw o gymharu a'i bartner yn Lloegr. Oherwydd dynodiad statws PGI mae'n gallu marchnata ei hun yn glir fel 'Cymreig' dros ei gymar yn Lloegr sy'n gorfod marchnata ei hun fel 'Prydeinig' oherwydd diffyg PGI. Mae'r pwynt gwerthu unigryw hwn yn pennu'r angen am wahanu ar adegau drwy hyrwyddo trwy gorff ardoll wedi'i ffocysu, sy'n cael ei redeg gan Gymru, ac sy'n eiddo i Gymru.
4. **Beth yw eich barn chi ar sut y dylai'r berthynas rhwng y sefydliadau hyn edrych yn y dyfodol ac a fydd mwy o gydweithrediad â byrddau ardoll eraill yn cael ei adlewyrchu yng nghytundeb fframwaith newydd Llywodraeth Cymru gyda HCC?**
- Mae HCC wedi meithrin perthynas dda â'r byrddau ardoll eraill a thrwy gydweithio parhaus byddant yn parhau i gydweithio i ymhelaethu ar weithgarwch lle bo hynny'n berthnasol a chael mynediad at gyllid i sefydlu rhaglenni sy'n gwneud y mwyaf o werth am arian sydd o fudd i'r gadwyn gyflenwi gyfan.
 - Bu fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda HCC i gytuno ar y Cytundeb Fframwaith diwygiedig wedi'i ddiweddarau sy'n darparu eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau gweithredol a bwrdd HCC, a Gweinidogion a swyddogion Cymru.
 - Mewn ymateb i hyn, bydd y Cwmni yn llunio cynllun gweithredol blyneddol yn nodi lefel y gwasanaeth a sicrhewr mewn meysydd allweddol a'r wybodaeth am berfformiad ac allbwn a gaiff ei chasglu er mwyn monitro cynnydd.
 - Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol fel y'u nodir yng Nghynllun Gweithredol 2025-2026 yn cynnwys gweithgarwch ymgysylltu a chydweithredu â'r cyrff ardoll eraill, er enghraifft:-
 - **Map ffordd y diwydiant cig coch** - Symud ymlaen, datblygu a chyfathrebu map ffordd i sero net sy'n eiddo i'r diwydiant gyda chyrff ardoll datganoledig eraill a'r diwydiant yn ehangach

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'ch cynorthwyo yng nghamau nesaf yr ymchwiliad i HCC.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Sianeli cyfathrebu ffurfiol cyfredol

- Cyfarfod y Cadeiryddion bob dwy flynedd (LMC, QMS, HCC & AHDB).
- Cyfarfodydd chwarterol a gynhelir rhwng y byrddau ardoll (LMC, QMS, HCC & AHDB) ar lefel Prif Swyddog Gweithredol yn ogystal â chyfarfodydd rhithwir misol y Prif Swyddog Gweithredol, i drafod cyfleoedd anfasnachol i gydweithio a thrafod meysydd lle byddai cydweithio strategol o fudd i'r diwydiant.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd hefyd rhwng uwch aelodau'r tîm arweinyddiaeth a chymheiriaid mewn chwaer-fyrddau ardoll (e.e. cyfarfodydd dychwelyd ardoll chwarterol).
- Yn ogystal, mae cyfarfodydd cydweithredu ad-hoc ehangach hefyd ar waith (ar lefel grŵp ac un-i-un) yn dibynnu ar y pwnc (e.e. ymgyrchoedd cyfathrebu hyd at ymchwil). Er enghraifft, yn ystod cyfnodau ymgyrchu marcoms allweddol (fel 'Wythnos Caru Cig Oen' a 'Great British Beef Week' – cynhelir cyfarfodydd bob pythefnos).
- Yn ystod cyfnodau o angen critigol (e.e. yn ystod cyfnod gwaethaf y pandemig pan gaewyd y diwydiant lletygarwch) trefnodd y byrddau ardoll ymgyrch 'Make it Beef' gyda dim ond ychydig wythnosau o rybudd a chydweithio drwy'r cyfan i sicrhau ei chyflawni'n llwyddiannus.

Engbreiffiau o brosiectau cydweithredu dros y blynyddoedd diwethaf

Polisi a chynaliadwyedd

- Llinell sylfaen carbon: fel rhan o ymrwymiad HCC i fetrig amgylcheddol iechyd y pridd, mae cydweithrediad â phartneriaid y sector, AHDB a QMS. Y nod yw darparu sylfaen amgylcheddol i sefydlu carbon net ar y fferm, gan ystyried carbon sydd wedi'i storio mewn pridd, ynghyd â gwrychoedd a choed, yn ogystal ag allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) ac atafaelu.
- Mae HCC yn parhau i gydweithio ag AHDB a QMS ar ffrydiau gwaith cynaliadwyedd cyn-gystadleuol, a phartneriaid eraill y sector yn y DU, i helpu i atgyfnerthu'r neges gynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys y **Map ffordd Cig Eidion a Chig Oen** a gyhoeddwyd yn ddiweddar - tuag at friff net sero net.
- Yn ogystal, mae gwaith yn parhau ar brosiectau gwella genetig sy'n arwain y diwydiant sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac elw amgylcheddol fel y [RamCompare](#) a rhaglenni Breeding Better.
- [Mae RamCompare](#) yn fenter genedlaethol i brofi disgynyddion defaid, a ariennir ar y cyd gan HCC ac AHDB. Mae'r prosiect yn casglu data perfformiad gwerthfawr gan ŵyn masnachol i yrru gwelliannau genetig yn y diwydiant defaid.
- [Mae GrassCheck GB yn cefnogi](#) cynhyrchiant glaswelltir y DU gyda chefnogaeth ar y fferm yn ymroddedig i wella glaswelltir a chynhyrchiant ledled y DU trwy fwrdd ardoll a chydweithrediad ehangach.
- Mae sicrhau enillion pellach o fuddsoddiad trwy rannu ymchwil a data hefyd yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Mae engbreiffiau'n cynnwys, prynu data defnyddwyr ar y cyd ag AHDB, er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian (e.e. gwybodaeth Kantar WorldPanel).

Masnach ac allforio

- Ym maes masnach ryngwladol ac allforio, mae tîm HCC wedi cydweithio ac wedi mynychu stondinau masnach a rennir â chwaer fyrddau ardoll. Enghraifft gyfredol yw gwaith sy'n mynd rhagddo gydag AHDB i archwilio'r posibilrwydd o stondin a rennir yn Gulfood 2026. Mae gweithgaredd a rennir o'r fath wedi'i gynnal yn y gorffennol mewn digwyddiadau masnach fel Gulfood 2023.
- Mewn digwyddiadau masnach ryngwladol eraill (e.e. Foodex 2025, New York Fancy Food 2026) Mae HCC yn sicrhau cyfraddau ffafriol trwy bresenoldeb mewn cydweithrediad ag Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru. Mae dull o'r fath yn caniatáu i HCC wneud y mwyaf o'r budd o gydweithio â naill ai'r llywodraeth neu bartneriaid chwaer-fyrddau ardoll.
- Mae HCC yn creu digwyddiadau pwrpasol yn y farchnad gan ddefnyddio asedau Llywodraeth Cymru yn y rhanbarth i leihau costau, er enghraifft, defnyddio llysgenadaethau'r DU i arddangos ein cynnyrch yn hytrach na thalu am fwyty a defnyddio staff Llywodraeth Cymru i helpu i gynllunio a chydlynu gweithgareddau.

Cydweithredu brand a chyfathrebu

Mae HCC yn gweithio gyda chwaer fyrddau ardoll yn rheolaidd ar ymgyrchoedd cenedlaethol integredig y DU. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys:

- Mae cydweithio ar **gig eidion** yn cael ei arddangos orau bob blwyddyn yn ystod Wythnos Cig Eidion Prydain Fawr. Eleni gwelwyd yr ymgyrch dan arweiniad ffermwyr, Naturally delicious – [Great British Beef Week 2025](#), gan roi'r wynebau y tu ôl i ffermio cig eidion Prydain wrth wraidd yr ymgyrch. Roedd cydweithio â chwaer-fyrddau ardoll yn caniatáu ail-frandio'r ymgyrch flynyddol i 'Wythnos Cig Eidion Cymru' er mwyn hyrwyddo brand Cig Eidion Cymru PGI yng Nghymru.
- Mae cydweithio ar **gig oen** yn cael ei arddangos orau gyda chydweithrediad blynyddol HCC yn gysylltiedig ag Wythnos Caru Cig Oen ym mis Medi bob blwyddyn. Yn 2024, gweithiodd tîm HCC gyda'i chwaer fwrdd ardoll i gyflwyno'r ymgyrch [Make it Lamb](#). Gwelodd hyn gyrhaeddiad o bron i ddwy filiwn o ddefnyddwyr ar draws y cyfryngau cymdeithasol yn ei gydweithrediad dros [bob un o bedwar bwrdd ardoll cig coch y DU](#).
- Ym maes **iechyd ac addysg**, mae HCC yn rhannu syniadau, arfer gorau a gwybodaeth gyda chydweithwyr o AHDB, QMS a LMCNI. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar sut i weithio ar y cyd ar gyfer 'New Scientist Live' ar gyfer 2025/26.
- When Food a Fact of Life, sy'n cael ei redeg gan British Nutrition Foundation ac ariennir gan AHDB, yn cynnal digwyddiad addysg yng Nghymru, mae HCC yn gweithio mewn partneriaeth â'n chwaer fwrdd ardoll – e.e. cyfranogiad cydwesteiwr wedi'i wahodd.

Rebecca Evans AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

16 Mai 2025

Annwyl Rebecca,,

Adolygiad o gymorth busnes

Rwyf ar ddeall eich bod wedi sôn, yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar gan [Glwb Brecwast Caerdydd](#), eich bod yn bwriadu cynnal adolygiad o'r dirwedd cymorth busnes. Nodaf hefyd eich bod wedi dweud, mewn [erthygl ar Business Live](#), eich bod yn awyddus i archwilio'r mater hwn yn ei gyfanrwydd ac i ddeall sut olwg fyddai ar y system cymorth busnes orau ar gyfer y dyfodol.

Byddwch yn cofio argymhelliad 5 yn [adroddiad](#) y Pwyllgor ar Fanc Datblygu Cymru, sef yr argymhelliad a ganlyn: "Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu adolygiad o swyddogaethau Busnes Cymru ac archwilio dichonoldeb a dymunoldeb integreiddio'r swyddogaethau hyn yng nghylch gwaith Banc Datblygu Cymru, a chanolbwyntio ar symleiddio'r cynnig cymorth i fusnesau. Dros y 6-12 mis nesaf, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ystyried y mater hwn, a rhoi sail resymegol glir dros y penderfyniad a wnaed o ganlyniad."

Yn ei [hymateb](#) i'r adroddiad, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwnnw mewn egwyddor, a hynny "ar y sail y bydd adolygiadau Busnes Cymru a'r Banc Datblygu yn y dyfodol yn ystyried a oes angen cryfhau'r rhyngwyneb rhwng y gwasanaethau ymhellach a chyfleoedd i integreiddio gwasanaethau lle bo hynny'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn dal yn agored i'r syniad o archwilio opsiynau tra'n ceisio sicrhau sefydlogrwydd, ansawdd a didueddrwydd darpariaeth gwasanaeth sefydledig."

Mae'r Pwyllgor yn cynnal [ymchwiliad](#) i'r pedair borgen twf dinesig a rhanbarthol yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael rhagor o fanylion am eich cynlluniau ar gyfer adolygu cymorth busnes fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Byddem yn ddiolchgar pe

gallech ddarparu gwybodaeth am eich adolygiad arfaethedig, gan gynnwys manylion cylch gorchwyl yr adolygiad neu gwmpas mwy cyffredinol y gwaith, pwy fydd yn cynnal yr adolygiad, a beth fydd yr amserlen y byddant yn glynu wrthi. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallwch gynnwys manylion ynghylch sut y bydd yr adolygiad hwn yn cysylltu ag argymhelliad y Pwyllgor uchod, os o gwbl.

Gan eich bod eisoes wedi ymrwmo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch adolygiadau o gymorth busnes, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 30 Mai. Diolch ymlaen llaw am ddarparu'r wybodaeth hon. Bydd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ein hymchwiliad.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

16 Mai 2025

Annwyl Carolyn,

Ymateb y Pwyllgor i ohebiaeth ynghylch deisebau

Diolch am eich llythyrau ynglŷn â'r ddeiseb sy'n galw am ddyfodol hirdymor Campws Llambed (P-06-1507), y ddeiseb ynglŷn â steilio cŵn (P-06-1391) a'r ddwy ddeiseb ynglŷn â rasio milgwn (P-06-1253 a P-06-1354). Bu'r Pwyllgor yn trafod y llythyrau hyn a'r deisebau yn ein cyfarfod ar 30 Ebrill.

Mae gan y Pwyllgor flaenraglen waith brysur, felly nid oes gennym unrhyw gynlluniau i gynnal ymchwiliadau penodol i'r materion hyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cadw golwg ar y sefyllfa yn Sector Addysg Uwch Cymru sy'n ymwneud â'n cylch gwaith o ran yr economi ac ymchwil a datblygu. Rydym hefyd yn cadw golwg ar waith Llywodraeth Cymru ar les anifeiliaid, a byddwn yn cynnwys steilio cŵn yn hyn o beth.

O ran rasio milgwn, nodaf fod Llywodraeth Cymru wedi datgan bwriad i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Y Pwyllgor Busnes sydd i benderfynu pa filiau y mae pa Bwyllgor yn craffu arnynt. Fodd bynnag, os cyfeirir bil i ddeddfu ar yr ymrwymiad hwnnw at y Pwyllgor hwn, byddaf yn sicrhau ein bod yn myfyrio ar y safbwyntiau a fynegwyd a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ddwy ddeiseb fel rhan o'n gwaith craffu.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Y Gwir Anrh. Elin Jones AS
Cadeirydd
Pwyllgor Busnes

19 Mai 2025

Annwyl Llywydd,

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

Ar 25 Mawrth 2025, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Ar 28 Chwefror, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a oedd yn gysylltiedig â'r Bil hwn. Mae'r Aelodau wedi trafod y Memorandwm atodol, ac maent yn fodlon bod yr adroddiad ar y Memorandwm gwreiddiol yn parhau i adlewyrchu safbwynt y Pwyllgor o ran y Memorandwm gwreiddiol a'r Memorandwm atodol. Felly, ni fyddwn yn cyhoeddi adroddiad ychwanegol ar yr adeg hon.

Ar 13 Mai 2025, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 3) at y Pwyllgor, gan bennu 19 Mai fel y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad. Rydym yn awyddus i glywed barn Llywodraeth Cymru ar y cymal newydd sydd wedi'i nodi yn y Memorandwm atodol hwn, ac ar sut y gallai proses gydsynio Gweinidogion Cymru weithio. Fodd bynnag nid oes digon o amser ar gael i'r Pwyllgor archwilio'r materion hyn cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Cadeirydd, Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid

22 Mai 2025

Annwyl Peredur,

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Diolch am eich llythyr ac am roi cyfle i'r Pwyllgor gyfrannu at eich gwaith ar broses y gyllideb. Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor wedi bod yn fodlon ar y dystiolaeth yr ydym wedi ei chael yn y cylchoedd cyllidebol diweddaraf, ond mae gennym rai syniadau a sylwadau yr hoffem eu rhannu.

Amseru

Testun siom i mi yw bod Llywodraeth Cymru yn rheolaidd wedi cyhoeddi ei chyllideb ddrafft mewn ffordd sy'n golygu bod cyfnod craffu'r pwyllgorau yn cynnwys toriad y Nadolig. Nodaf fod eich Pwyllgor yn rhannu'r un rhwystredigaeth.¹

Derbyniaf fod Llywodraeth y DU i ryw raddau yn cyfyngu ar broses gyllidebol Llywodraeth Cymru, ond mae amseru pob cylch cyllidebol yn y Senedd hon – yn cwmpasu toriad y Nadolig – yn anffafriol i waith craffu da. Mae amseru fel hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar randdeiliaid ar adeg pan fo llawer o bobl yn absennol a llawer o swyddfeydd ar gau, ac mae hefyd yn cyfyngu ar yr amser sydd gan bwyllgorau yn eu cyfarfodydd i adolygu'r gyllideb ddrafft. Ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n galed i sicrhau nad yw pwyllgorau'n gorfod craffu arnynt dros doriad y Nadolig.

¹ Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: [Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25](#), paragraff 17

Tystiolaeth sy'n dod i law

Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar y dystiolaeth yr ydym yn ei chael fel rhan o broses y gyllideb. Hoffwn nodi bod y disgrifiad o gamau gweithredu ar ffurf tablau gweithgareddau BEL wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i ni. Yn gyffredinol, yn ogystal â'r manylion cyllideb a ddarperir, rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith bod papurau tystiolaeth ynghylch y gyllideb yn rhoi diweddariad cyffredinol defnyddiol ar draws portffolios, sy'n eu gwneud yn ddefnyddiol o ran tryloywder a gwaith craffu parhaus.

Fodd bynnag, yn y dyfodol, hoffem weld mwy o wybodaeth am y gwaith ymgysylltu y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud â rhanddeiliaid penodol ac yn ehangach â dinasyddion ar ddatblygu ei chyllideb fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth. Byddai hyn yn ein helpu ni i ddeall y gwaith meddwl y tu ôl i benderfyniadau ac yn caniatáu inni ganolbwyntio ein gwaith ar y gyllideb.

Effaith gyfyngedig

Er fy mod yn croesawu'r cyfle i graffu ar y gyllideb, a bod hyn, fel y nodir uchod, yn rhan greiddiol o'n gwaith craffu parhaus ar Lywodraeth Cymru, yn bersonol, fe welaf fod effaith gwaith craffu pwyllgorau ar y gyllideb braidd yn gyfyngedig. Mae ein system gyfrannol wedi tueddu i arwain at Lywodraeth leiafrifol neu Lywodraeth â mwyafrif bach iawn. Mae hyn yn golygu bod rhaid wrth gytundebau gwleidyddol, fel arfer y tu ôl i'r llenni, er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu pasio. O ganlyniad, gall proses y gyllideb ei hun deimlo braidd fel fait accompli.

Diolch eto am y cyfle i gyfrannu at y gwaith hwn.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

22 Mai 2025

Annwyl Mike,

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfodydd Rhynglywodraethol i ddod

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am ail gyfarfod Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau a gynhelir ddydd Gwener 23 Mai. Byddaf yn mynd i'r cyfarfod.

Ar yr un diwrnod, rwy'n edrych ymlaen hefyd at gyfarfod rhwng Prif Weinidog y DU, Prif Weinidog yr Alban, Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon a minnau, yn ogystal â chyfarfod dwyochrog byr â Phrif Weinidog y DU.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau yn y cyfarfodydd hynny maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio; Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.



Eluned Morgan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-RE-1179-25

Andrew RT Davies, AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

28 Mai 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar yr Economi Sylfaenol.

Rwy'n croesawu gwaith y Pwyllgor ar y rhan bwysig hon o waith Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi wydn. Mae casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn ddefnyddiol a byddant yn llywio ein hymagwedd at yr Economi Sylfaenol.

Rwy'n atodi ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion y Pwyllgor.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCorrespondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Yr Economi Sylfaenol

Ymateb i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (Ebrill 2025)

28/05/2025

Ym mis Ebrill 2025, cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig adroddiad i Lywodraeth Cymru yn dilyn ei ymchwiliad i'r Economi Sylfaenol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys 10 argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Ymatebion i Argymhellion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig	5
Argymhelliad 1	5
Argymhelliad 2	5
Argymhelliad 3	6
Argymhelliad 4	6
Argymhelliad 5	7
Argymhelliad 6	7
Argymhelliad 7	8
Argymhelliad 8	9
Argymhelliad 9	10
Argymhelliad 10	11

1. Cyflwyniad

Mae'r gwasanaethau a'r cynnyrch yn yr Economi Sylfaenol yn darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt er mwyn ein cadw ni'n ddiogel, yn gadarn ac yn waraidd.

Mae'r Economi Sylfaenol yn un o ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu ac mae'n ganolog i Genhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n strategol ar y sectorau canlynol o'r Economi Sylfaenol:

- gwasanaethau gofal ac iechyd (gan gynnwys gofal cymdeithasol a gofal plant)
- rheoli tai cymdeithasol
- adeiladu cartrefi ac adeiladau masnachol, ynni a chyfleustodau
- bwyd
- siopau a gwasanaethau'r stryd fawr
- twristiaeth
- trafnidiaeth gyhoeddus.

Dyma amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer meithrin yr economi sylfaenol:

- Nodi a chefnogi cyfleoedd i ddarparu mwy o swyddi, swyddi gwell a swyddi gwyrddach a hyrwyddo gwaith teg.
- Rhoi "mwy o fodd i fyw i aelwydydd" trwy helpu i gynyddu cyflogau trwy gynlluniau fel y Cyflog Byw Gwirioneddol, gan helpu i wneud hanfodion sylfaenol yn haws eu fforddio.
- Adeiladu cadwyni cyflenwi lleol i gadw pobl, sgiliau a chyfoeth yng Nghymru.
- Cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Annog pobl i gyd-arloesi a chyd-arbrofi i wella nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, yn enwedig y rheini sy'n cyfrannu at seilwaith cymdeithasol gwydn, megis trwy brosiectau cydweithredol neu gymunedol.

Mae adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cynnwys casgliadau ac argymhellion defnyddiol a fydd yn llunio gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r economi sylfaenol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn darparu ymatebion i bob un o argymhellion y Pwyllgor.

2. Ymatebion i Argymhellion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r diffiniad deulol a ddatblygwyd gan yr Athro Karel Williams a Chynghrair Sylfaenol Cymru fel sail i'w gwaith ar yr economi sylfaenol. Dylai hefyd weithio gydag ymarferwyr i greu diffiniadau syml, un llinell i gynyddu ymwybyddiaeth o'r economi sylfaenol, a chyfleu'r rhain yn ehangach i sefydliadau

Ymateb: Derbyn

Ym mis Mehefin 2024, dechreuodd y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cadarnhau dealltwriaeth o ddulliau gweithredu'r economi sylfaenol a sut i'w mabwysiadu. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys 'ymarferwyr' yr economi sylfaenol, academyddion sy'n gweithio ym maes yr economi sylfaenol, melinau trafod, sefydliadau sy'n ymgychu, pobl sy'n gweithio'n agos gyda chyrff angori a chyrff cyhoeddus ar bynciau cysylltiedig, gweithwyr proffesiynol caffael, ac unigolion tebyg eraill. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, cyhoeddwyd diffiniad polisi a datganiad cenhadaeth wedi'u diweddarau ar 28 Ebrill 2025:

Yr economi sylfaenol: datganiad cenhadaeth [HTML] | LLYWODRAETH.CYMRU

Mae'r Datganiad Cenhadaeth yn egluro diffiniad a dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r economi sylfaenol. Mae'r diffiniad yn cynnwys elfennau ansoddol ac elfennau yn ymwneud â sectorau.

Hefyd, mae'r Datganiad yn cynnwys amcanion dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r economi sylfaenol, yn ogystal â disgrifiad o'r adnoddau a ddefnyddir gennym i'w hysgogi. Nod y datganiad cenhadaeth yw hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o gysyniad yr economi sylfaenol ymhlith ystod ehangach o randdeiliaid.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol i hybu dealltwriaeth o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ymyriadau economi sylfaenol. Dylai hefyd gydweithio â phartneriaid i lunio cynllun cyflawni economi sylfaenol sy'n nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru ac eraill yn eu cymryd i gyflawni ei hamcanion..

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Fel rhan o'r gwaith i ddatblygu'r datganiad cenhadaeth, lluniwyd rhestr hir o fetrigau i fonitro cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion ar gyfer yr economi sylfaenol. Bydd gwaith yn cael ei wneud i ddefnyddio'r rhestr hir hon i greu set o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn egluro'r uchelgais. Bydd prospectws economi sylfaenol ar gyfer y dyfodol yn cael ei baratoi mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, a bydd modd ei gyflwyno yn chwarter cyntaf 2026 fel cynllun i'w ystyried gan y weinyddiaeth newydd yn dilyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.

Goblygiadau ariannol: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol, ond mae'n bosibl y bydd gan y prospectws economi sylfaenol y dyfodol effeithiau cysylltiedig ar y gyllideb.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o ffocws ar gefnogi dull o'r gwaelod i fyny at yr economi sylfaenol. Fel rhan o'r dull hwn, dylai wneud y canlynol:

- Gweithio gyda phartneriaid i dreialu a gwerthuso 'cynghreiriau y rhai sy'n barod' i gyflawni newid mewn rhai meysydd economi sylfaenol allweddol, gan gynnwys nodi cyfleoedd i dreialu dull gweithredu tebyg i 'skunkworks'.
- Datblygu dulliau llai rhagnodol o ymdrin â chyllid grant sy'n cefnogi arloesedd ac yn grymuso sefydliadau i gyflawni blaenoriaethau cymunedol.

Ymateb: Derbyn

Trwy ein cymuned ymarfer economi sylfaenol, sydd wedi'i chynyddu i ehangu cyrhaeddiad ar draws sectorau sylfaenol, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd a allai elwa o dreialu dull gweithredu tebyg i skunkworks. Mae'r gymuned ymarfer wedi cael ei sbarduno gan ddull gweithredu o'r gwaelod i fyny, ac mae'r gweithgareddau wedi cael eu hysgogi gan rhanddeiliaid sydd eisiau sicrhau newid. Byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r gymuned ymarfer bwyd er mwyn llunio rhagor o 'cynghreiriau y rhai sy'n barod'.

Goblygiadau ariannol: I'w benderfynu yn amodol ar nodi cyfleoedd posibl i ddefnyddio dulliau gweithredu tebyg i skunkworks.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa wersi y gellid eu dysgu o feysydd polisi trawsbynciol eraill i brif ffrydio dull economi sylfaenol ar draws y llywodraeth, a nodi sut mae'n bwriadu cymhwyso'r gwersi hyn erbyn mis Medi 2025.

Ymateb: Derbyn

Bydd tîm yr economi sylfaenol yn cydweithio â meysydd polisi eraill, fel Gwaith Teg, i nodi sut y gallai'r dulliau gweithredu hyn gefnogi rhagor o waith traws-lywodraethol.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 5

Er mwyn cefnogi camau dysgu, lledaenu a graddio arfer da, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau allweddol yn sgil gwerthusiadau o fentrau economi sylfaenol mewn un lle. Dylid ymgorffori'r rheini, wedyn, yn ei gwaith craffu ar ba mor effeithiol y mae sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni blaenoriaethau'r economi sylfaenol. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i nodi prosiectau llwyddiannus yr economi sylfaenol y mae'n dymuno eu cynyddu, a nodi ei chynlluniau i wneud hynny

Ymateb: Derbyn

Mae tudalen bwrpasol ar gyfer yr economi sylfaenol wedi'i chreu ar wefan Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys astudiaethau achos sy'n cyhoeddi allbynnau a phrofiadau o brosiectau, ynghyd ag adnoddau eraill. Yn ogystal, mae gan Cynnal Cymru, partner cyflenwi cymuned ymarfer yr economi sylfaenol, ddeunydd pwrpasol ar ei wefan ar gyfer yr economi sylfaenol, gan sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau dysgu a chynnwys ymchwil ar gael. Bydd tîm yr economi sylfaenol yn sicrhau bod y ddwy wefan yn cael eu cynnal a'u diweddarau yn rheolaidd er mwyn sicrhau mynediad at wybodaeth a dysgu cyfredol. Hefyd, bydd tîm yr economi sylfaenol yn gweithio gyda phartneriaid drwy'r gymuned ymarfer i ofyn am awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ehangu, a bydd unrhyw gynlluniau y cytunir arnynt yn cael eu hychwanegu at wefannau Llywodraeth Cymru a Cynnal Cymru.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r modd y bydd yn gwella'r cymorth ariannol tymor hwy sydd ar gael i fentrau llwyddiannus yr economi Yr Economi Sylfaenol 7 sylfaenol, y mae angen cymorth parhaus arnynt. Dylai hyn gynnwys dadansoddi'r modd y gellir defnyddio'r trefniadau twf lleol olynol i'r Gronfa Ffyniant Cyffredin, i gefnogi sefydliadau'r economi sylfaenol.

Ymateb: Derbyn

Mae darpariaeth cyllideb bresennol yr economi sylfaenol yn caniatáu ar gyfer ariannu gweithgarwch Busnesau Cymru ar gyfer yr economi sylfaenol yn benodol, cyflawni gwaith y gymuned ymarfer, rhaglenni gwaith y sector adeiladu

trwy Ragoriaeth Adeiladu yng Nghymru, a swm cymharol fach o gyllid gwerth £250,000 i gefnogi gweithgarwch prosiectau. Bydd tîm yr economi sylfaenol yn cynorthwyo partneriaid prosiect trwy'r gymuned ymarfer i nodi prosiectau sydd ag uchelgais a photensial i ehangu, ac archwilio ffynonellau cyllid eraill a allai gefnogi gweithgarwch o'r fath.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 7

Mewn perthynas â gwella cyfleoedd caffael i fusnesau bach a chanolig yn yr economi sylfaenol, dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau a ganlyn:

- Amlinellu'r modd y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i ledaenu a chynyddu arfer gorau i gefnogi busnesau bach a chanolig yr economi sylfaenol ledled Cymru i dendro am gyfleoedd caffael yn y sector cyhoeddus.
- Nodi'r modd mae'n bwriadu defnyddio ei phwerau o dan Ddeddf Caffael 2023 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 er mwyn cefnogi mwy o wariant gyda busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, a sefydliadau trydydd sector..

Ymateb: Derbyn

Trwy brif ffrydio amcanion yr economi sylfaenol fel rhan o weithgarwch Busnes Cymru, mae cymorth penodol yn cael ei ddarparu ar gyfer busnesau sy'n gweithredu yn y sectorau sylfaenol. Er enghraifft, bydd cyfres o Sioeau Teithiol Cyflenwyr Busnes Cymru yn cael eu cynnal ledled Cymru ym mis Mai a mis Mehefin eleni, gyda'r nod o helpu cyflenwyr sylfaenol i ddod o hyd i gontractau'r sector cyhoeddus, gwneud cais amdanynt, a'u hennill, gan ddeall y newidiadau mawr i reoliadau caffael. Am y tro cyntaf erioed, y llynedd cynhaliwyd digwyddiadau Expo yn ymwneud â'r economi sylfaenol yn y Gogledd a'r De. Denodd y digwyddiadau dros 1,100 o gynrychiolwyr cofrestredig ac roedd cyfle i gyflenwyr gyfarfod â phrif brynwyr y sector cyhoeddus a manteisio ar wasanaethau cymorth er mwyn gwneud cais am gontractau yn y dyfodol. Bydd yr Expos yn cael eu cyflwyno eto'r hydref nesaf.

Nod Deddf Caffael 2023 yw creu proses gaffael gyhoeddus fwy hygrych a thryloyw ar gyfer busnesau bach a chanolig (BBaChau) a sefydliadau'r trydydd sector. Mae mwy o dryloywder ar gyfer cyflenwyr yn golygu y byddant yn gallu gweld yr holl gyfleoedd tendro mewn un lle, yn ogystal â chynyddu tryloywder llifoedd caffael, gan roi mwy o amser i fusnesau baratoi ar gyfer cyfleoedd tendro perthnasol a chael mynediad at gymorth sydd ar gael drwy wasanaeth Busnes Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio roi sylw dyledus i'r rhwystrau y mae busnesau bach a chanolig yn eu hwynebu ac ystyried mesurau i ddileu neu leihau'r rhwystrau hyn. Mae Deddf Caffael 2023 a Deddf

Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 Llywodraeth Cymru yn cynnwys rheolau gwell yn ymwneud â thaliadau prydlon a fydd yn helpu i sicrhau bod cadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn gweithredu'n fwy effeithiol.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd ar sut mae eu prosesau caffael yn cyfrannu'n gyffredinol at lesiant yng Nghymru trwy gofnodi metrigau llesiant ac adrodd arnynt. Bydd y rhain yn destun ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf ond disgwylir iddynt gynnwys gwybodaeth am faint o gyllid caffael sy'n cael ei wario ar fusnesau, busnesau bach a chanolig a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 hefyd yn cynnwys dyletswyddau rheoli contractau a chadwyni cyflenwi ar gyfer gwasanaethau adeiladu ac allanoli mawr. Ar gyfer y maes adeiladu, bydd cymalau enghreifftiol yn cael eu cyhoeddi mewn chwe chategori lle mae angen gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig a sefydliadau trydydd sector ennill contractau mewn cadwyni cyflenwi adeiladu. Cynhelir ymgynghoriad ar y cymalau hyn yn ystod yr haf a'r nod yw sicrhau eu bod yn dod i rym cyn diwedd tymor y Senedd hwn yn 2026.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r modd y bydd yn defnyddio deddfwriaeth gaffael ddiweddar i wneud y mwyaf o werth cymdeithasol caffael ar draws sefydliadau sector cyhoeddus datganoledig. Dylai ddarparu hyfforddiant wedi'i deilwra i staff caffael i'w galluogi i roi hyn ar waith

Ymateb: Derbynn

Mae'r Ddeddf Caffael yn caniatáu gweithdrefnau mwy hyblyg ac yn hyrwyddo proses o ystyried ffactorau y tu hwnt i'r pris isaf yn unig, megis gwerth cymdeithasol, arloesedd a chynaliadwyedd. Nid yw tendrau yn cael eu hasesu bellach ar sail y Tendir Mwyaf Manteisiol yn Economaidd, ond ar sail y Tendir Mwyaf Manteisiol. Mae hyn yn cael gwared ar y meini prawf 'economaidd' ac yn golygu bod modd rhoi mwy o flaenoriaeth i werth cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) 003: Cymalau gwerth cymdeithasol/buddion cymunedol drwy gaffael cyhoeddus er

mwyn helpu awdurdodau contractio i gyflawni amcanion gwerth cymdeithasol trwy eu gweithgarwch caffael.

Mae Llywodraeth y DU wedi datblygu rhaglen ddysgu a datblygu gynhwysfawr er mwyn sicrhau bod gan randdeiliaid ddigon o hyfforddiant yn ymwneud â Deddf Caffael 2023. Mae'r dysgu pwrpasol yn helpu i sicrhau bod awdurdodau contractio Cymru yn deall sut maen nhw'n gallu defnyddio elfennau hyblyg o'r drefn newydd mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r gofynion.

Gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau sector cyhoeddus Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynhyrchion dysgu dwyieithog ar gyfer awdurdodau contractio datganoledig Cymru. Mae'r hyfforddiant hwn yn ategu'r dysgu craidd a gynigir gan Lywodraeth y DU ac yn ymgorffori gofynion o dan y Ddeddf Caffael, y dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus osod amcanion ar gyfer sut y byddant yn cyflawni nodau llesiant ac yn adrodd bob blwyddyn ar y graddau y maent wedi cyflawni'r amcanion hyn. Unwaith y bydd y dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn dod i rym yn llawn, byddant yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y dyletswyddau wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni canlyniadau llesiant ar sail eu holl weithgarwch caffael.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi staff caffael wrth weithredu'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys datblygu canllawiau, darparu gwybodaeth, a chynnal deialog barhaus gyda'r gymuned gaffael er mwyn ei helpu i gyflawni ei rolau yn effeithiol.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau angori mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i sicrhau bod dulliau 'tyfu eich gweithlu eich hun' yn cael eu datblygu a'u cynyddu ar draws Cymru, gan ddefnyddio dull hyblyg sy'n diwallu anghenion lleol cyflogwyr a chymunedau..

Ymateb: Derbyn

Mae prif sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gyflogwyr mawr ac maent yn cynnig cyfle pwysig i ddarparu cyfleoedd gwaith teg i gymunedau lleol.

Mae rhai byrddau iechyd wedi mabwysiadu modelau er mwyn recriwtio pobl o'u cymunedau lleol a chynorthwyo recriwtiaid i gwblhau prentisiaethau a mathau

eraill o ddysgu seiliedig ar waith er mwyn datblygu eu sgiliau a'u cymwysterau a chamu ymlaen yn eu gyrfa yn y sefydliad. Mae gennym gyfle i ddysgu ac ehangu'r modelau recriwtio 'tyfu eich gweithlu eich hun' mewn cymunedau lleol er mwyn denu ymgeiswyr o'r gymuned ehangach trwy brosesau dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau i ennill, dysgu a datblygu gyrfaedd yn y system iechyd a gofal. Byddwn yn gweithio gydag AaGIC i gyhoeddi canllawiau i ehangu a lledaenu modelau recriwtio 'tyfu eich gweithlu eich hun' yn y gymuned leol.

Yn ogystal, mewn ymateb i'w gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu, lluniodd AaGIC Adroddiad Gwerthuso – Prentisiaethau Gradd mewn Gofal Iechyd a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu. Fel rhan o lythyr cylch gorchwyl AaGIC ar gyfer 25/26, gofynnir i'r sefydliad ddatblygu cynllun i ymgymryd â rhagor o waith ymchwil a chynnal ymgynghoriad manwl yn ymwneud ag effaith bosibl prentisiaethau gradd ar feysydd galwedigaethol gwahanol. Dylai hyn ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan MEDR i adnewyddu ei fframwaith prentisiaethau.

Mae'r rhaglen 'tyfu eich gweithlu eich hun' a ddatblygwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cael ei hyrwyddo fel astudiaeth achos trwy wefan cymuned ymarfer yr economi sylfaenol: Tyfu eich gweithlu eich hun – Dull Hywel Dda o feithrin sgiliau a llesiant lleol – Cynnal Cymru. Byddwn yn ymgysylltu ledled y sector iechyd er mwyn annog pobl i fabwysiadu dulliau tebyg sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r gweithlu lleol.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn gyflogwyr lleol pwysig, ac mae gan rai ohonynt farchnadoedd cyflogaeth lleol daearyddol fawr, ond prin, tra bod eraill yn rhannu cronfa ranbarthol o bobl o fewn pellter cymudo hwylus i sawl cyflogwr sector cyhoeddus. Mae gweithgareddau ar waith i gefnogi'r broses o recriwtio pobl i rai swyddi y mae'n anodd recriwtio staff iddynt a'u cadw, fel cynllunio ac iechyd yr amgylchedd. Byddwn yn archwilio cyfleoedd ar gyfer camau eraill yn y sector trwy godi'r mater yn y Cyngor Partneriaeth er mwyn sicrhau bod Arweinwyr yn gwybod amdano, gan hyrwyddo dysgu ar y cyd a nodi'r hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i ddarparu cymorth.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd y camau canlynol o fewn ei phwerau datganoledig er mwyn gwella cyflog ac amodau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat:

- Defnyddio llythyrau cylch gwaith i osod gofynion ar gyfer cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y rhain i wella cyflog ac amodau gwaith, a gweithio gyda

phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu a chytuno ar safonau gofynnol cyffredin ar gyfer cyflog ac amodau gwaith yn y sector cyhoeddus datganoledig.

- Gweithio'n gyflym gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu cynigion cymesur i gefnogi gwaith teg drwy gymorth ariannol Llywodraeth Cymru, a dechrau cyflwyno'r rhain erbyn diwedd 2025. Fel rhan o'r Yr Economi Sylfaenol 8 gwaith hwn, dylai'r Llywodraeth, hefyd, ystyried y modd y gall dull Gwaith Teg yn Gyntaf (Fair Work First) Llywodraeth yr Alban lywio datblygiadau yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ym mis Rhagfyr 2024, ysgrifennodd y Prif Weinidog at bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan eu hannog i ystyried manteision mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a bod yn gyflogwr achrededig y Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae hyn yn dilyn gohebiaeth debyg yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Hefyd, rydym yn cydweithio â Cynnal Cymru, partner achredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru, gan ddarparu cyllid blynyddol iddo. Mae'r cymorth hwn yn gwella gallu Cynnal Cymru i ymgysylltu â chyflogwyr, gan gynnwys cyrff cyhoeddus. Rydym yn disgwyl i sefydliadau yng Nghymru sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, lofnodi'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r Cod yn cynnwys 12 ymrwymiad, ac un ohonynt yw i sefydliadau sy'n llofnodi'r cod ymarfer ystyried talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a bod yn sefydliad achrededig y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae gan GIG Cymru strwythurau ffurfiol cadarn a sefydledig ar gyfer gwaith partneriaeth gymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru, cyflogwyr y GIG ac undebau ieuchyd yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau agored sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda'r nod cyffredin o wella bywyd gwaith staff y GIG a nodi sut y gellir gwella gwasanaethau'r GIG. Mae'r strwythurau partneriaeth gymdeithasol ffurfiol yn cynnwys Fforymau Partneriaeth Lleol cyflogwyr/undeb ym mhob bwrdd ieuchyd, ymddiriedolaeth ac awdurdod ieuchyd arbennig sy'n sicrhau bod telerau ac amodau cenedlaethol a blaenoriaethau partneriaeth genedlaethol yn cael eu cyflawni oddi mewn i gylch gorchwyl pob cyflogwr GIG Cymru. Ar lefel genedlaethol, mae Fforwm Partneriaeth Cymru yn fforwm teirochrog sy'n gwneud gwaith pwysig yn nodi blaenoriaethau ar gyfer materion cyflog ac amodau gwaith – er enghraifft sicrhau bod elfennau o'n cytundebau ar y cyd sy'n ymwneud â chyflogau a materion eraill yn cael eu cyflawni'n gyson.

O safbwynt cyrff hyd braich, mae dogfennau'r fframwaith yn amlinellu'r trefniadau disgwylidig ar gyfer rheoli staff ac egwyddorion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â sefydlu systemau cyflog teg (sy'n cynnwys talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a sicrhau cydraddoldeb cyflog i'r rhai sydd â'r cyfraddau cyflog isaf). Er mwyn ategu ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog, ac wth weithio mewn partneriaeth

gymdeithasol, mae camau wedi'u cymryd i ystyried cysoni cyfraddau cyflog a thelerau ac amodau gweithwyr ar draws cyrff hyd braich. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Mae is-grŵp o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wedi'i ffurfio a bydd yn ystyried gwaith teg yn ymwneud â chyllid grant Llywodraeth Cymru i fusnesau. Mae'r grŵp yn cynnwys sefydliadau cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr undebau llafur. Mae'r is-grŵp wedi cytuno ar gynllun gwaith, sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth i ddull gweithredu Gwaith Teg yn Gyntaf Llywodraeth yr Alban. Disgwylir y bydd y grŵp yn gorffen ei waith ar ddiwedd 2025. Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a Gweinidogion Cymru yn ystyried cyngor y grŵp.

Goblygiadau ariannol: Dim



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach
a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

30 Mai 2025

Annwyl Andrew

Dyma eich hysbysu, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach wedi'i drefnu ar gyfer 2 Mehefin 2025.

Y cyfarfod hwn fydd y cyfarfod cyntaf ers nifer o gyhoeddiadau masnach pwysig gan gynnwys cytundebau masnachu'r DU â'r Unol Daleithiau ac â India, a bydd yn trafod y cytundebau hyn yn ogystal â'r ymgysylltu a fu rhwng gweinyddiaethau'r DU.

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Department
for Environment,
Food & Rural Affairs

Daniel Zeichner MP
Minister of State

Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

T: +44 (0) 3459 335577
E: correspondence.section@defra.gov.uk
W: gov.uk/defra

Eitem 4.14

Andrew RT Davies MS
Chair: Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales

Our ref: PO2025/08242/FA

30 May 2025

Dear Andrew,

Thank you for your letter of 10 April to the Secretary of State about the work that the UK agri-food and drink attachés undertake, including in support of the Welsh agri-food sector. I am replying as the Minister responsible for this policy area and I apologise for the delay in doing so.

Protecting and expanding agri-food market access is central to increasing resilience and boosting growth. Food and drink manufacturing supports prosperity across the UK – it is the UK's largest manufacturing sector by value and is unique in being present across the whole of the UK. We recognise the tremendous value of working closely with Welsh businesses, from established brands to the innovative small and medium-sized enterprises that Wales is known for, to continue to expand agri-food market access.

Defra currently has sixteen agri-food attachés around the world whose role is to support UK agri-food exports by opening up new market access. This includes protecting existing market access - for example in the event of disease outbreak - breaking down export barriers, increasing trade resilience and driving export growth in priority markets. We work closely with industry to identify the highest value opportunities to inform our market access incentives in Wales and across the UK.

Defra liaises closely with Welsh government teams, both directly and through forums such as the Trade Measures Board to understand priorities and provide progress updates. The attachés also work very closely with Welsh government counterparts in embassies to broaden market access and promote Welsh food and drink.


Recent examples include hosting food and drink showcase events in Morocco and New Delhi to celebrate St David's Day that Defra attachés helped to organise. These set piece promotional events compliment day to day joint working to increase access, resolve barriers and build visibility and demand for iconic Welsh products. Department for Business and Trade colleagues also play a key role in showcasing products at trade shows and supporting business to business connections. We will continue to look for opportunities to showcase Welsh food and drink and build further on the strong joint working between our global networks.

I am grateful that the agri-food attachés were able to meet Welsh government representatives as well as stakeholders as part of the Industry Engagement Week last November. The attachés also visited several farms and Welsh brands to raise awareness of the network in Wales. This built on a roundtable where Welsh businesses had the opportunity to connect with the attachés and ask questions about accessing markets. Welsh businesses fed back that the attachés were an invaluable resource to compliment the Welsh government's export accelerator programme and in market specialists. The export team in Defra has also visited the Royal Welsh Show to connect with officials and businesses directly to showcase the role we can play in delivering on export ambitions.

Last year the attachés working with Defra officials in the UK resolved an export barrier nearly every week, including securing access to the US market for UK beetroot growers and resuming pork exports to China for major UK producers, which industry estimates are worth £80 million. This work is continuing, including securing market access to export live seafood products to Vietnam, a priority market for Welsh producers.

Strengthening our export capability provides a powerful catalyst for growth and prosperity and enables us to showcase the quality and diversity of UK food and drink across the world. I look forward to continuing this long-standing partnership.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Daniel Zeichner', with a stylized flourish at the end.

DANIEL ZEICHNER MP

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon